

ECO'R WYDDFA

Rhif 245

MAI 1998

Pris 30c

CYFARFOD BLYNYDDOL ECO'R WYDDFA

YN Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG

NOS FERCHER, 13 MAI 1998

am 7.30 o'r gloch

TAER ERFYNNIR AM EICH CEFNOGAETH

Cadw'r Hen Lwybr

Mae trigolion ardal Pentre Castell yn Llanberis yn bryderus iawn ynglŷn â symudiad i gau un o lwybrau cyhoeddus y cylch. Gwerthwyd rhan o dir Coed Fictoria ac mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno i droi'r tir yn faes parcio enfawr.

Mae'r cynllun hwnnw yn cael ei wrthwynebu gan lawer o'r trigolion ac y mae Cyngor Cymdeithas Llanberis hefyd wedi mynegi ei wrthwynebiad i'r cynllun. Amser a ddengys beth fydd penderfyniad yr awdurdodau cynllunio ynglŷn â'r cais hwnnw.

Mae llwybr cyhoeddus yn arwain o Ben y Ceunant i Bentre Castell (llwybr rhif 8, plwyf Llanberis) yn mynd trwy'r tir hwn. Mae pryder yn lleol y gallai'r datblygiad hwn amharu ar yr hawl i ddefnyddio'r llwybr. Hyd yn hyn nid yw'r cais cynllunio wedi'i drafod gan yr awdurdodau perthnasol.

Mae deiseb wedi ei threfnu ymhlith trigolion Pentre Castell a Limbo yn mynegi gwrthwynebiad i'r bwriad i gau'r llwybr, ac yn ôl a ddeallwn, cafwyd cefnogaeth frwd iddi. Mae'r bobl leol yn pwysleisio bod y llwybr cyhoeddus yn dal yn

agored a bod pob hawl i'w gerdded hyd nes bydd yr awdurdodau yn penderfynu'n wahanol.

Yn ogystal â'r pryder am y llwybr cyhoeddus mae gofid yn lleol am yr holl gynllun i droi Coed Fictoria

neu'r Parc Mawr, yn faes parcio. Ar wahân i'r niwed a wneid i ddarn o dir gwyrdd mae'n bwysig cofio bod yr hen ffordd Rufeinig yn mynd trwy'r tir a bod rhywfaint o'i holion yn dal yno. Gobeithio bydd yr awdurdodau cynllunio yn rhoi ystyriaeth ddwys a gofalus i'r holl gais ac yn gwneud penderfyniad a fydd yn diogelu'r darn prydferth hwn o dir.

Helpu Plant Romania



Eric Baylis, Prif Swyddog Tân Llanberis, yn derbyn siec am £212 er budd Apêl Romania Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru oddi wrth brif ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Casglwyd yr arian ar ddiwrnod arbennig pan dalai'r disgyblion ddirwy am ddod i'r Ysgol yn eu dillad eu hunain yn hytrach nag yn eu gwisg ysgol swyddogol.

Bydd Eric Baylis a chydweithwyr iddo yn y Gwasanaeth Tân o rannau gwahanol o'r gogledd yn ymweld â chartref plant ym Mwcharest yn Romania am y trydydd tro fis Hydref nesaf i wneud gwaith atgyweirio ac adnewyddu ar adeiladau'r cartref.

Ar hyn o bryd mae wrthi'n casglu arian er mwyn prynu offer angenrheidiol ar gyfer y gwaith. Mae'n ddiolchgar i ddisgyblion Brynrefail am eu cymorth. Mae'n diolch hefyd i Mrs Betty Hughes, Stryd y Wyddfa, Llanberis a drefnodd fore coffi, a wnaeth elw o £74 yn Y Bistro, ac i Danny a Nerys a phawb a gefnogodd y bore coffi a'r Ras Hwyaidd a gynhaliwyd ddydd Llun y Pasg.

Dymunir yn dda i Eric efo'r Apêl, a cheir rhagor o hanes y gwaith yn Romania yn un o rifynnau nesaf yr *Eco*.

etifeddiaeth o'r fath yn ei chynefin.'

Mae hefyd wedi awgrymu i'r Adran Ddiwylliant y gellid trefnu math o gylchdaith ddiwylliannol a fyddai hefyd yn cynnwys cartrefi beirdd a llenorion eraill Gwryfai, Dyffryn Nantlle a Rhosgadfan: enwogion fel R. Williams Parry, Gwilym R. Jones, Silyn, Kate Roberts a Dafydd Ddu Eryri.

Ychwanegodd y Cyngorydd

Wyn, 'Mae'n bwysig i'r ardal gyfan fynegi barn gref ar y mater hwn a chydweithio â'r Cyngor Sir i greu cynllun, efallai gan ddefnyddio arian y Loteri, i gael arian inni fedru arddangos gogoniannau ein llenorion yn lleol. Deallaf bellach y bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfodydd gyda chynghorau cymuned er mwyn gwyntyllu barn. Mae hyn i'w groesawu.'

Pencampwr

Mae'r Eco wedi cael cyfle fwy nag unwaith i longyfarch bachgen deuddeg oed o Lanrug ar ei llwyddiant ym myd chwaraeon, ac yn arbennig am nofio.

Mae Eifion Williams yn brysur ddatblygu yn un o sêr yr ardal ac mae'n debyg fod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai mwyaf llwyddiannus iddo erioed.

Rhyw dair wythnos yn ôl bu Eifion yn cystadlu ym mhencampwriaethau Cymru yn yr Empire Pool yng Nghaerdydd. Roedd wedi'i ddewis i gystadlu mewn chwe cystadleuaeth, tipyn o gamp ynddi'i hun, ond llwyddodd Eifion i ennill medal aur ym *mhump* o'r cystadlaethau hynny a medal arian yn y chweched. Ar ben hynny fe sefydlodd record genedlaethol yn y gystadleuaeth 100m broga.

Hwn oedd y tro cyntaf i Eifion nofio mewn pwll 50m ac roedd yr achlysur yn un cofiadwy gan mai hon oedd y bencampwriaeth olaf i gael ei chynnal yn y pwll yma gan ei fod ar fin cael ei ddymchwel i wneud lle i'r stadiwm newydd.

Y penwythnos canlynol bu Eifion yn cystadlu ym mhencampwriaethau Gogledd Cymru yn Y Rhyl. Roedd o'n cystadlu mewn pedair ras, enillodd bedair medal aur ac fe dorrodd bedair record — camp anhygoel. Bydd Eifion yn aelod o dim Gogledd Cymru fydd yn cystadlu ym mhencampwriaethau



Prydain a gynhelir yn Sheffield 23-24 Mai. Dymunwn yn dda iddo gan edrych ymlaen i gofnodi ei gampau ar dudalennau'r *Eco*.

Cadw'r Creiriau

Mae ansicrwydd ynglŷn â dyfodol amgueddfa Syr T. H. Parry-Williams yn Hen Dŷ'r Ysgol yn Rhyd-ddu. Adran Diwylliant a Hamdden Cyngor Gwynedd sy'n ystyried symud y celfi o Ryd-ddu i oriel ym Mangor er mwyn eu harddangos mewn lle pwrpasol a diogel. Nid yw'r safle presennol yn un o stafelloedd Tŷ'r Ysgol yn addas ym marn yr Adran, gan fod yr ystafell wedi ei chloi am y rhan fwyaf o'r amser a'r celfi felly allan o olwg y rhan fwyaf o ymwelwyr.

Ond mae'r cynghorydd lleol, Y Cyngorydd Eurig Wyn o'r Waunfawr, yn credu'n gryf y dylid cadw'r amgueddfa yn Rhyd-ddu. Ym marn Eurig Wyn: 'Byddai'n gamgymeriad symud creiriau ein beirdd enwocaf i Fangor yn barhaol. Deallaf broblemau Adran Ddiwylliant Gwynedd, sef y gellid colli grantiau sylweddol os na ellir dangos ein bod yn cynnig cartref addas, diogel a phwrpasol i warchod ac arddangos hanes entwogion fel T. H. Parry-Williams, ond mae'r cysylltiad rhwng y beirdd hyn a'u cymuned yn glôs, a dylid gwarchod

ECO'R WYDDFA

Rhif 245
MAI 1998

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean P. Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: James James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Ann Cumberton,
Gwastadnant (870356)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, MAI 28

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, MAI 18

Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD COPI	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â
MEHEFIN	MAI 18	MAI 28	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts Williams
GORFFENNAF	MEHEFIN 22	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr Geraint Ellis
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 24	MEDI 3	DINORWIG	Miss Marian Jones
HYDREF	MEDI 21	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans
TACHWEDD	HYDREF 19	HYDREF 29	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans
RHAGFYR	TACHWEDD 16	TACHWEDD 26	CAEATHRO	Mr Clive James

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (01248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (01286) 650556

DEINIOLLEN: Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes y Faenol (01286) 871174

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (01286) 872390

Llythyr

Canmlwyddiant Ysgol Dyffryn Nantlle

Annwyl Olygydd,

Mae Ysgol Dyffryn Nantlle yn gant oed elni. Ymysg y gwahanol weithgareddau sydd yn cael eu trefnu ar gyfer y dathliad ym mis Medi, bydd Aduniad i gyn-ddisgyblion ac athrawon. Cynhelir yr Aduniad yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, nos Sadwrn, 12 Medi, i gychwyn oddeutu 7 o'r gloch yr hwyr. Bydd lluniaeth ar ffurf bwffe a'r mynediad trwy docyn am £8 y pen.

Yr ydym yn awyddus i weld llawer iawn o gyn-ddisgyblion ac athrawon yn dod i'r Aduniad, felly i hwyluso ein trefniadau byddem yn ddiolchgar pe byddai'r sawl sy'n dymuno cael tocyn yn cysylltu â Mrs Beryl Roberts, Y Rheithordy, 2 Môr Awel, Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6RA, gan anfon amlen a stamp arni gyda'r cais, a siec wedi ei gwneud yn daladwy i 'Ysgol Dyffryn Nantlle', a hynny, os yn bosibl, cyn 1 Gorffennaf.

Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad.

Yr eiddoch yn gywir,

DELYTH ROBERTS
DONNA WILLIAMS

Caderyddion Is-bwyllgor yr Aduniad

Cynhadledd Genedlaethol Yr Iaith Gymraeg a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl Olygydd,

Yn dilyn y bleidlais 'IE' gwél Cymdeithas yr Iaith fod sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yn creu cyfnod gwleidyddol newydd a chyffrous yng Nghymru. Yn arbennig credwn fod gan y Cynulliad botensial anferth o safbwynt hybu a hyrwyddo dyfodol yr iaith Gymraeg ar gyfer y mileniwm nesaf. Rydym yn awyddus i weld y Cynulliad yn sicrhau cyfle teg a chyfartal i bawb yng Nghymru fedru cyfranogi yng nghyfoeth yr iaith Gymraeg.

Yn ystod y cyfnod paratoadol yma cyn i'r Cynulliad gyfarfod a chychwyn ar ei waith mae llawer o gwestiynau i'w codi a'u hateb parthed yr iaith Gymraeg a'r Cynulliad. Ein cyfrifoldeb ni fel plb Cymru yw mynd ati nawr i ystyried y cwestiynau yma er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn atebol i gymunedau Cymru ac yn gorff sy'n gwasanaethu buddiannau gorau sefydliadau, cyrff, awdurdodau, cwmnïau a phobl Cymru.

Fe'ch gwahoddwn chi felly i fynychu Cynhadledd Undydd Genedlaethol ar yr iaith Gymraeg a'r Cynulliad. Cynhelir y gynhadledd ar 4 Mehefin 1998 yng Nghanol Plas Menai, Y Felinheli, Gwynedd.

Disgwylwn y bydd y Gynhadledd yn darparu cyfle unigryw i bobl o sawl maes yng Nghymru ddod ynghyd i drafod a chreu agenda glir

a phendant ar gyfer y Cynulliad parthed yr iaith Gymraeg. Bydd yn gynhadledd allweddol o bwys hanesyddol a thaer erfyniwn am eich cefnogaeth.

Yn gywir,

SIAN HOWYS

Cadeirydd Grŵp Democratiaeth
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Ysbyty'r Chwarel

Annwyl Olygydd,

Rwyf yn ymchwilio i hanes rhai o Ysbatai Chwareli gogledd Cymru ac mae gennyf ddiddordeb yn Chwarel Dinorwig gan fod tair cenhedlaeth o'm teulu wedi bod yn gweithio yno.

Tybed a oes rhywun yn yr ardal ag atgofion, hanesion neu ddogfennau yn ymwneud â'r ysbyty? Mae *Bargen Dinorwig* (Emyr Jones) ymhlith nifer o ffynonellau cyhoeddus gwerthfawr, ond hoffwn glywed am unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Gwelais gyferiad am un a laddwyd yn y Chwarel yn 70au'r ganrif ddiwethaf fel 'Old Hospital'. Ple roedd honno tybed? Mae'n eithaf posib bod y fath le yn rhagflaenu'r Ysbyty presennol.

Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr unrhyw wybodaeth, ac yn ddiolchgar pebai eich darllenwyr yn cysylltu â mi.

Gyda llawer o ddiolch.

Yn ddiffuant,

(Dr) EDWARD DAVIES
Llechwedd

Cerrigydrudion, Corwen LL21 9SU
Ffôn/Ffacs: (01490) 420314

SYSTEMAU RHYBUDD a GWASANAETH TRYDANOL



★ Lleihau y perygl o ladradd ★

Fe synnech mor hawdd a sydyn y gall eich cartref gael ei ddiogelu rhag lladron

BARGEN ARBENNIG!

Cyflenwi a gosod system am cyn lleied â

£250 (+ TAW)

(Pob system yn cydsynio â B.S. 4737)

Os oes gennych system eisoes ac angen ei uwchraddio, neu angen gwasanaeth cynnal a chadw, cysylltwch â ni:

(01286) 674422 neu (01248) 670923

AFALLON, BETHEL, CAERNARFON, GWYNEDD LL55 1UN

I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)

714043 neu
(01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Band Newydd

Yr oedd gan pob un ohonom freuddwyd — rhyw nod neu darged pellgyrhaeddol yr oeddem yn dyheu i'w gyrraedd — pan oeddem yn ieuengach. Y mae tri o fechgyn chweched dosbarth Ysgol Brynrefail yn barod wedi cychwyn ar y ffordd i wireddu eu breuddwydion hwy o ddod yn fand roc enwog.

Yn y chweched uchaf y mae Dewi Thomas sy'n chwarae'r drymiau; Huw Llywelyn y gitarydd a'r chwaraewr sacs; ac Ynyr Roberts y prif leisydd a'r chwaraewr bas. Y mae'r tri wedi cyfuno eu talentau cerddorol i ffurfio'r grŵp EPITAFF.

Mae Epitaff wedi cael cyfle i ddod yn arwyr yn y byd roc Cymraeg a thu hwnt gan eu cwmni recordiau, y cwmni lleol Gwynfryn â'i berchennog, Bryn Roberts, yn byw yng Ngheunant. Yr oedd Bryn yn awyddus iawn i arwyddo Epitaff ar ei label wedi iddo glywed un o'u perfformiadau cynharaf. Roedd wedi synnu at allu y grŵp i fedru diddanu eu cynulleidfa am noson gyfan a gwelai fod dyfodol disglair gan yr hogiau.

Mae ganddynt nifer o ganeuon gwreiddiol Cymraeg, yn ogystal â rhai Saesneg. Maent fel arfer yn cyfuno'r caneuon hyn â chaneuon poblogaidd y sin roc Gymreig ac Eingl-Americanaidd, caneuon grwpiau megis y Stereophonics, Super Furry Animals, REM a Radiohead.

Er mai gweddol newydd ydi'r band, maent yn barod wedi cynnal nifer o nosweithiau llwyddiannus dros ben, yn enwedig eu perfformiadau yn y Snowdon Inn yng Nghwm-y-glo; tafarn Penbont, Llanrug; y Ship & Castle yng Nghaernarfon; a'r Snowdonia Parc yn Waunfawr. Ymhen blynnyddoedd, os bydd yr hogiau'n cyflawni eu potensial, yna efallai y bydd y rhai a fu'n gwrando ar Epitaff yn y dyddiau cynnar yma yn ymfalchïo eu bod hwy wedi 'bod yno' i wrando ar un o berfformiadau cyntaf y grŵp.

Yn y misoedd nesaf mae Epitaff yn bwriadu parhau i berfformio'n fyw, ond hefyd maent am geisio cael ychydig o'u gwaith ar dâp. Byddant yn cilio i'w stiwdio recordio yn fuan i gyflwyno ychydig o ganeuon ar gyfer rhaglen radio un o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail, Dafydd Du, sef y rhaglen 'Ram Jam' ar Radio Cymru. Tra yn y stiwdio hefyd, bydd yr hogiau yn recordio cân neu ddwy ar gyfer record hir newydd label Gwynfryn.

Cadwch lygad allan hefyd am Epitaff yn perfformio ar 'Uned 5' ar S4C ar y 7fed o Fai, pryd y byddant yn cymryd rhan mewn

cystadleuaeth i ddarganfod y band newydd gorau yng Nghymru. Mae Epitaff hefyd yn bwriadu cynnal cyngerdd i'w cyd-ddisgyblion yn neuadd Ysgol Brynrefail ar yr 22ain o Fai.

Dros wyliau'r Sulgwyn bydd Epitaff yn brysur eto gan iddynt lwyddo i gael lle i berfformio ym Mhabell Roc Eisteddfod yr Urdd ym Mhwlheli. Ar ôl hynny, mae'r mater bychan o arholiadau lefel-A gan y tri i'w ddelio ag efi! Ond, yn barod mae'r triawd â'u golygon ar yr haf, ac mae nifer o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill.



NOSON 'TLWS YR ECO'
12 MEHEFIN 5.30 p.m.
yn Ysgol Gynradd Llanrug

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

Pum Cynnig i Gymro

Gŵr a fu yn y newyddion y dyddiau hyn yw John Elwyn Jones, yn awr o Ddolgellau ond gynt o'r Waunfawr. Yn 1987 cyhoeddwyd ei hunangofiant o dan y teitl *Pum Cynnig i Gymro*, ac yn ddiweddar gwnaed ffilm o'r llyfr, sef *'At the Fifth Attempt'*, gyda Huw Garmon yn portreadu John Elwyn Jones. Stori am brofiadau'r awdur mewn gwersyll carcharorion rhyfel yng ngwlad Pwyl a geir, a'i briod o

ychydig oriau yn cael ei chipio oddi arno, ac yntau yn cael gwybodaeth ymhen amser iddi farw o'r darfodedigaeth mewn gwersyll arall. Ond y llynedd er syndod iddo clywodd nad gwir hyn ac mai yn 1990 y bu farw yn wraig Celinka yn 69 oed. Dangoswyd y ffilm yn Theatr Gwynedd ddiwedd Mawrth. Mae'r fersiwn Gymraeg ar S4C bob nos Sul ar hyn o bryd.

CYFARFOD BLYNYDDOL
ECO'R WYDDFA
13 MAI am 7.30 p.m.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

Diwrnod
Amgylcheddol
Antur Waunfawr

Mae Antur Waunfawr yn cynnal Diwrnod yr Amgylchedd ddydd Sadwrn, Mai 16, i ddathlu'r amgylchedd, byd natur, cadwraeth a chefn gwlad. Bydd yn ddiwrnod arbennig iawn ac yn gyfle i bobl ddod i fwynhau gogoniant byd natur yn y parc natur, a dysgu ychydig mwy am yr amgylchedd.

Fel uchafbwynt i'r diwrnod — yng nghwmni gwesteion arbennig — bydd y Caban Ecoleg newydd sbon yn cael ei agor ym Mharc Natur yr Antur i ddangos esiamplau o ynni amgen o'r haul, gwynt a dŵr.

Estynnir gwahoddiad i fudiadau amgylcheddol a chadwraethol fynychu'r diwrnod drwy ddod â stondin neu arddangosfa i'r Antur ar Fai 16. Os hoffech fod yn rhan o'r diwrnod arbennig yma, cysylltwch ag Antur Waunfawr ym Mryn Pistyll, Waunfawr, Gwynedd, neu ffoniwch (01286) 650 721.

antur
padarn

CYNHELIR

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
Antur Padarn Cyfyngedig
YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL
PENISARWAUN

NOS WENER, 22 MAI 1998
am 7.00 p.m.

CROESO CYNNES I'R HOLL AELODAU

O SIAMBAR SELWYN

Roedd 'na gebrwn mawr ym mynwent Penisarwaun 'ma ychydig ddyddiau'n ôl. Fe barodd am dridia. 'Tri Diwrnod ac Angladd'? Na — angladd tri diwrnod oedd hwn. Roedd o'n gythral o gnebrwn.

Newydd gyrraedd adra o un o'm teithiau yr oeddwn i ac yn teimlo braidd yn gysglyd wrth fusnesu tipyn yn ffenast y Siambar. A be welis i, ond y lawnt o flaen yr Eglwys yn un carped o bobol mewn dillad du, a hitha ddim ond yn wyth o'r gloch y bora.

O, do, mi rois i binshiad i fy hun — rhag ofn. Oeddwn, mi roeddwn i'n effro. Nefoedd fawr, meddwn, mae'n rhaid bod 'na rywun go bwysig wedi'n gadael ni tra roeddwn i'n galifantio rownd yr hen fyd 'ma. Tybed ddyliwn i dynnu'r belinds y Siambar i lawr?

Ond eto, doedd 'na ddim golwg rhy drist ar y galarwyr chwaith. Roedd golwg barchus iawn arnyn nhw — chwarae teg — fel brain, neu'n hytrach fel pengwins yn eu crysau gwynion a'u teis a'u siwtiau duon. Tybed, meddwn i eto, mai 'day out' y mesyns sy ar gychwyn? Ond eto pam ymgynnull o flaen Grand Lodge Eglwys Penisarwaun?

Roedd hyn yn dipyn o ddirgelwch ac roedd y ffordd o King Arthur at yr Ysgol yn un stribed o geir a faniau, ac hyd yn oed gaffi symudol. Mae'n rhaid gen i fod hwn yn gnebrwn rhyw foi reit bwysig. Mae dyddiau'r Lordiaid drosodd siawns. Rhyw Syr efallai? Tybed ai rhyw Syr go enwog oedd yr M A DAWEDIG druan?

O ffenast yr atic 'cw mi welwn i rhyw hanner dwsin mewn du yn cael tipyn o drafferth hefo'r arch. Roedd hi'n mynd i lawr i ddyfnder y bedd ac i fyny ohono, fel io-io. Pinshiad arall i fi fy hun. Na, nid breuddwyd oedd hyn — roedd y cyfan yn digwydd o flaen fy llygaid, a doedd hi ddim yn Ebrill y cynta chwaith. Tybed a oedd yr Awdurdodau Meddygol

wedi gwneud camgymeriad? Ma' 'na betha digon rhyfedd yn digwydd ym myd meddyginiaeth y dyddia yma. Tybed a oedd y Syr M A Dawedig hwn wedi rhoi rhyw ochenaid neu waedd o'i arch pan oeddwn nhw ar fin ei sodro fo yn ei gaban brics, a llafar ganu y geira 'pridd i'r pridd, lludw i'r lludw' uwchben ei fedd o? Efallai wir, oherwydd rhyw gerdded yn ôl ac ymlaen o'r Eglwys at y bedd y bu'r galarwyr drwy'r dydd. Smocio, sgwsio, yfed te a chladdu brechdanau, ac yn wir fel yr ai'r oriau heibio, roedd golwg go ddiflas ar amryw ohonyn nhw — yn wir roedd golwg y bedd ar amball un. Roedd y siwtiau 'pin-streips' yn prysur ddiiflannu dan gotiau cnesach, a'r cludwyr uwch ben y bedd yn dal i gal problema hefo côr dderwy Syr M. A. Dawedig.

Roedd y traffig ar y ffordd rhwng Groeslon King Arthur a'r Ysgol yn cael ei stopio bob hyn, a hyn. Sŵn clecian y meics radio, a'r gair 'cut' yn diasbedain dros ardd y meini mud. 'Lasarus anwl' roedd y cnebrwn mawr yma yn dipyn o embaras dybiwn i — yn dipyn o siop shiafins. Oedd, mi roedd yr M. A. Dawedig hwn yn bwysigyn, does na ddim dowt am hynny, oherwydd pob hyn a hyn fe ddeuai yr awyrlu o'r Fali drosodd i roi rhyw fath o 'ffeinal salwt' iddo, ac roedd camerâu'r deyrnas yno i ffilmio ei ffarwél ola.

Yr un oedd y drefn yn ystod yr ail ddiwrnod. Dim cymaint o alarwyr wedi dod i 'day two' y cnebrwn, a phwy a wêl fai arnyn nhw ar ôl cael y profiad o sefyllian drwy 'day one' a heb gael cyfle i golli yr un deigrin ffug. Roedd 'na ambell ŵr busnes prysur yn dal i ddamio, o gael ei stopio gan rhyw wenyn pwysig o foi mewn côt felyn. 'Nefoedd,' medda un, 'dydach chi byth wedi'i gladdu ol?' 'Ydach chi isio benthg rhaw?' oedd cwestiwn gwawdlyd un arall. Ac un arall yn awgrymu, '... dew,

ewch â fo i Fangor i'r Crematorium a dowch a'i lwch o i fan'ma — mi fydd hynny'n llai o draffarth i chi, o beth diawl!' Ia, pawb a'i gyngor mewn sefyllfa o dristwch.

Dwi'n cofio ninnau ym Methel er stalwm yn chwarae cnebrwn pan oeddwn ni'n blant a John Cefn Bach yn sylcio'n bwt a phan ofynnwyd iddo am eglurhad am y dagrau — ateb John oedd, 'Dwi'm yn chwara os na chai fod yn hers'. Ia, roedd John eisio bod yn geffyl blaen wrth chwara cnebrwn. Chwara teg iddo fo.

Ac mi ges inna'r syniad mai chwara cnebrwn oedd y criw niferus yma. Doedd 'na ddim golwg torcalonnus ar yr un o'r 'perthnasau'. Doedd hogia'r coleri polo-mint ddim i'w gweld mewn cydymdeimlad dwys chwaith, ac mir roedd y trefnwr angladdau yn dueddol o golli'i limpyn braidd ar brydiau.

O, oedd, roedd hwn yn gythral o gnebrwn mawr.

* * *

Ar fore'r trydydd dydd roedd pethau'n dawelach. Roedd yr arch wedi gorffen ei 'bynji-jump' mewn 'lô-gêr' i fyny ac i lawr o'r bedd. Roedd y brain a'r pengwins wedi diflannu o dir yr Eglwys ac roedd rhwydd hynt i'r ceir fynd heibio unwaith eto. Oedd, roedd y chwarae cnebrwn trosodd, a hyd y gwn i doedd 'na neb wedi pwdu am na chafodd o ddreifio'r hers.

* * *

Sul y Blodau mi eis i am dro o gwmpas y fynwent. Roedd 'na ddoman o bridd ar y llecyn lle bu bedd gwag M. A. Dawedig. Doedd 'na'r un blodyn ar y beddrod, dim ond chwyn. Tybed a lwyddodd o i atgyfodi? Beth bynnag am hynny — mi gafodd o gythral o gnebrwn mawr.

Ys gwn i faint gostiodd o?



ANTUR BRYN PISTYLL
WAUNFAWR, CAERNARFON
(01286) 650 721
Llun — Sadwrn 10.00 a.m. — 4 p.m.

DIWRNOD YR AMGYLCHEDD YM MHARC NATUR ANTUR WAUNFAWR

Dydd Sadwrn, 16 Mai 1998

STONDINAU A LLUNIAETH GWESTEION ARBENNIG
PEINTIO WYNEBAU

Agoriad swyddogol i'n Caban Ecoleg — adeilad sy'n dangos enghraifftiau o ynni amgen ac yn hyrwyddo byd natur.

MYNEDIAD AM DDIM DIWRNOD O HWYL I'R TEULU
DEWCH YN LLU I DDATHLU EIN AMGYLCHEDD



ELLIS WYN SIOP Y BARBWR, CAERNARFON . . .

- Rŵan wedi ailagor yn YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PLAS, CAERNARFON
- Hefyd yn galw yn eich cartref
- Ffoniwch am apwyntiad

678963 (GARTREF) 0411 457215 (SYMUDOL)

Trin Traed Gwartheg



'Crush' pwrpasol gan W.O.P.A.
Ar gyfer buwch neu darw
Hefyd:
Ymgymmerir â shafio gwartheg tew

Dylan Roberts
Penllech Bach, Tudweiliog, Pwllheli
(01758) 770279 : symudol 0421 956143



Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul



ORIEL CWM

Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio Llundiau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

'Un funud fach . . .'

CYFAMOD

Wedi misoedd a blynyddoedd o ddadlau cafwyd cytundeb yn Iwerddon. Bu'r gwleidyddion wrthi'n ddyfal yn ei drafod ac o'r diwedd llwyddwyd i gael arweinwyr y pleidiau i dorri eu henwau dano. Mae gobaith newydd yn y tir a does ond gobeithio a gweddio y bydd y cytundeb yn cael cefnogaeth y pleidiau a'r boblogaeth. Mae gwaith caled yn aros y gwleidyddion er mwyn sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad y bobl, ac mae pawb yn dymuno'n dda iddynt ac i'r bobl a ddioddefodd cyhyd.

Mae'r cytundeb yn dal yn ddigon bregus ym marn rhai oherwydd ei fod yn dibynnu ar gydweithrediad a chefnogaeth y bobl y bu muriau mor uchel yn eu gwahanu ar hyd y blynyddoedd. Mae gaen Dduw ei gytundeb sy'n sicrhau heddwch rhyngom ni ag Ef. Mae'r cyfamod hwnnw yn gadarn ac nid oes peryg yn y byd iddo siglo. Ni fydd newid arno, ni fydd torri arno byth. Yng ngeiriau'r emyn, *Er maint eu pla daw tyrfa i ben eu taith*.

Mae pobl Iwerddon yn haeddu'r gobaith am heddwch a chymod. Mae nhw wedi dioddef digon. Mae nhw wedi dyheu a breuddwydio am heddwch. Ond mae Duw wedi trefnu ei gyfamod a'i osod o'n blaen heb i ni ei haeddu. Fu gan yr un ohonom ran yn ffurfio'r cytundeb; a'r gwir yw na wnaethom ni ddangos ein bod yn dymuno ei gael chwaith. Pan oeddem elynion y'n heddychwyd, yn ôl y Beibl. Ar Dduw ei hun y mae'r cyfamod hwn yn dibynnu ac iddo Ef yn unig y mae'r clod amdano. Mae holl ffyddlondeb a chariad Duw yn rhoi gwarant y bydd yn sefyll. *Ei rym o hyd yw holl gadernid Duw*.

Bu raid addasu llawer ar fanylion y cytundeb yn Iwerddon, a diolch am y parodrwydd i ildio a chyfaddawdu er sicrhau'r cytundeb. A bydd newidiadau pellach eto, wrth gwrs, wrth i'r trafodaethau barhau. Nid oes angen newid dim ar gyfamod Duw nac ychwanegu dim ato. Mae pob peth wedi ei ddelio'n llawn a phob manylyn wedi ei setlo. Mae heddwch â Duw a bywyd tragwyddol ar gael i bawb sy'n derbyn Iesu Grist. A diolch byth, *nid byd na bedd na'n gwendidau ni all dorri'i ryfedd rym*.

JOHN PRITCHARD

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad i deulu Penhafodlas, Ceunant yn eu profedigaeth o golli Robert Jones — gŵr, tad a thaid hoffus.

GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI
ELECTRICAL
FRON
DEINIOLLEN

★ AIL WEIRIO
★ CAWODYDD
★ GOLEUADAU DIOGELWCH
★ LARWM LLADRON
★ CYNNAL A CHADW
(01286) **870858** SYMUDOL
0467 774 326

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

NOSON LAWEN. Nos Iau, 19 Mawrth, cynhaliwyd Noson Lawen yn y Ganolfan gan Gwmni Drama Llanberis. Arweinydd y noson oedd Mrs Betty Peris Roberts a chafwyd noson hynod o hwyliog ac fe fwynhaodd pawb eu hunain. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Betty Peris Roberts a rhai diolch i Mr Ieuan Williams, perchennog bysiau Deiniolen, am redeg bws arbennig yn rhad ac am ddim o Ddeiniolen i'r Ganolfan. Diolch hefyd i ardalwyr Deiniolen am eu cefnogaeth. Roedd yr elw yn mynd i'r Cwmni Drama. GWELLHAD. Deallwn fod Mrs Megan Morris yn disgwyl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd a hyderwn y bydd gartref yn reit fuan ac yn gwella. Da gennym yw deall fod Mrs Margaret Jones, 5 Bro Elidir wedi dod gartref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty yn Lerpwl. Mae Mr Gwilym Davies, 10 Bro Elidir wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn iddynt oll adferiad iechyd llwyr a buan. Deallwn fod llawer o'r ardal wedi bod o dan y fflw yn ddiweddar a gobeithiwn eu bod hwythau wedi gwella ac y cawn fwynhau eu cwmni unwaith eto. GENEDIGAETH. Yn Ysbyty Gwynedd ar Sadwrn, 28 Mawrth, ganwyd Alaw, merch fach gyntafanedig i Mr a Mrs Dylan Lewis, 3 Bro Elidir. Llongyfarchiadau ac i Alun a Lonna ar ddod yn daid a nain, Pob bendith, iechyd a hapusrwydd i'r blynyddoedd a ddêl.

PROFEDIGAETHAU. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyr i Mr Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis yn ei brofedigaeth o golli ei ewythr yng Nghaernarfon ac hefyd ei fodryb yn Lloegr. Nawdd y nef fo arnoch fel teulu yn eich galar a'ch profedigaeth. SUL Y PASG. Ni chynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwyr yr M.C. ar Sul y Pasg gan fod gwasanaethau undebol ag eglwys Cefnywaun. Mae hyn yn draddodiad ers rhai blynyddoedd bellach. Mae Cyfarfod Pregethu blynyddol yng Nghefnywaun ar Sul y Pasg a'r pregethwr gwadd eleni oedd y Parchg Gwyn Erfyl, Bangor. Cafwyd dwy oedfa un am 10 a'r llall am 6. Yr oedd Capel Sardis yn cynnal oedfa yr ofalaeth ym Mhenuel, Bangor.

YR EISTEDDFOD. Er bod cryn dipyn o eira wedi disgyn dros y Pasg nid wyf yn meddwl fod neb yn yr ardal wedi disgwyl gwel y fath eira a gawsom nos Fawrth, 14 Ebrill, sef noson yr Eisteddfod. Roedd y Ganolfan yn orlawn o oedolion a phlant a dechreuwyd ar y cystadlu yn brydlon am 6.30, ond erbyn tua 7 o'r gloch roedd y tywydd yn gwaethygu ac erbyn 7.15 rhaid oedd rhoi'r gorau iddi, ac fe aed ar frys i ffonio am y bws i gludo pobl adref. Cafwyd cryn drafferth i gael rhai

cerbydau o'r iard i'r ffordd fawr a chyda cryn broblem y cyrhaeddodd y bws.

Carem ddiolch i Alison, Foel Cottage, am fynd a chryn nifer o bobl adref yn ei Land Rover a diolch hefyd i Ieuan Williams, Deiniolen am ei ddyfalbarhad yn cael y bws i fyny i'r ardal gan fynd a'r rhai oedd ar ôl gartref yn saff. Noson i'w chofio yn sicr — ond am y rhesymau anghywir!

Fe gyfansoddodd y Prifardd Meirion MacIntyre Huws englynion i'r achlysur a chewch eu clywed rwy'n gobeithio ar y 28ain o Ebrill pryd yr ydym am ail gynnal yr Eisteddfod. Hwn fydd y trydydd tro inni roi cynnig ar gynnal yr Eisteddfod — 'tri chynnig i Gymro' gobeithio.

Carem ddiolch am gydweithrediad y tri beirniad, cyfeilyddion a phawb arall a oedd yn gysylltiedig â'r Eisteddfod. Diolch i bawb a fentrodd allan ar y fath noson a gobeithiwn y cawn eich cwmni eto ar yr 28ain o Ebrill.

PWYLLGOR ADLONANT. Wedi blynyddoedd o gynnal gweithgareddau llwyddiannus fel Eisteddfod Bentref, Hwyl Haf, ac ati, mae Pwyllgor Adloniant Dinorwig wedi dod i ben. Yn dilyn cynnal y gweithgareddau hyn codwyd arian ar y ffordd ac fel canlyniad mae'r pwyllgor wedi penderfynu dosbarthu'r arian sy'n weddill ymysg mudiadau/cymdeithasau lleol fel Canolfan Dinorwig, Cymdeithas Undebol Lenyddol, Ysgol Gwaun Gynfi, Carnifal Deiniolen, Ysgol Feithrin Deiniolen a Chymorth Cristnogol. Dros y blynyddoedd cawsom gefnogaeth gryf gan drigolion yr ardal a dim ond teg yw cydnabod hynny trwy rannu'r arian fel hyn. Er fod y pwyllgor arbennig yma wedi dod i ben mae'n dda gweld criw newydd wrthi yn parhau â'r gwaith da o drefnu gweithgareddau lleol. Dymunir pob llwyddiant iddynt.

DRAENOG



Glywsoch chi am ddyn o Lanberis yn cario dau fag siopa llawn ym Mangor yn ddiweddar? Mae'n debyg wrth gamu i'r bws ar ei ffordd adref — efo bag ym mhob llaw — fe syrthiodd ei drowsus at ei draed! O! Embaras! Mae'r Draenog yn rhoi cyngor y buasai'n Well Sti iti ddal dy drowsus na chariyr bags!

DRAENOG



Chwarae teg i'r tad o Ddinorwig am fod mor feddylgar â pharatoi pryd o grempogau i'r teulu. Pawb yn eistedd yn ddisgwylgar wrth y bwrdd bwyd . . . ond och! . . . roedd y blas fymryn yn wahanol. Ail astudio'r risêt . . . oedd roedd y cynhwysion yn gywir. Roedd popeth wedi'i gymysgu a'i goginio yn ôl y cyfarwyddiadau, ac eto . . . roedd rhywbeth o'i le ar y blas. Yna, sylweddolwyd mai llefrith oen llywaeth a ddefnyddiwyd . . .!

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

LLONGYFARCHIADAU i Alwyn a Beryl Jones, 3 Tai Tan y Coed ar enedigaeth eu hail ŵyr, Rheinallt, brawd bach i Llion, Elliw a Gwenlli. CYDYMDEIMLWN ag Owen Edwin ac Einir Shepherd (Llanfairfechan) ar golli eu tad, Robert E. Wynne, gynt o Gelliud.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Nance Williams a fu'n byw am flynyddoedd lawer yn Cartref, Tai Trefor. Bydd yn golled fawr i'w dwy chwaer, Winnie Meredydd a Rhodwen Jones.

GWELLHAD BUAN i Kathleen Jones a'i chwaer Mair Williams o 2 Pant y Coed, ond yn awr ym Mhlas Pengwaith, Llanberis. Anfonwn hefyd ein dymuniadau gorau i Mrs Dora Roberts, Min y Parc.

DIOLCH. Dymuna Manon a Rob Skyrme, 21 Tewkesbury Street, Cathays, Caerdydd ddiolch o galon am yr holl anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar 28 Mawrth. Diolch hefyd am yr holl gardiau a'r dymuniadau da. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

BETWS GARMON

DIOLCH. Dymuna Pearl ac Eurwyn, Parc ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a'r cardiau (sy'n rhy niferus i'w hateb yn unigol), galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam a mam yng nghyfraith. DAMWAIN. Gobeithio yn fawr fod Mrs Catherine Tyrrell, Garreg Wen yn gwella wedi iddi gael damwain a thorri ei garddwm.



MAE'R GWANWYN YN DOD!

I dorri'ch gwair yn fisol (a'i glirio) cysylltwch â:

WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

Ffôn: (01286) 870674

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

CHWILOTA

MELINAU'R SAINT

Melin Pontrug



Nid yw pob un o felinau'r Afon Saint yn hen: ychydig dros ganrif yn unig sydd ers pan gafwyd caniatâd i adeiladu melin ym Mhontrug. Roedd y felin newydd hon i'w lleoli ar ochr uchaf y bont, yn wahanol i'r hen felinau eraill yn yr un ardal, a leolwyd islaw'r bont. Assheton Smith o Stad y Faenol oedd y perchennog tir yn ardal Pontrug, ac un o'r daliadau mwyaf oedd fferm Cefntresaint, neu Kent fel yr adnabyddid hi'n ddiweddarach. Roedd tir Cefntresaint yn ymestyn at yr afon ar y naill du o'r bont, ac ar dir y fferm y rhoddwyd caniatâd i adeiladu melin newydd yn 1873.

Ar dir Tyddyn Pont Rug (mae adfeilion i'w gweld ar gwr y bont heddiw, wrth ochr y llwybr sy'n arwain o'r bont i fyny'r llethr tua hen gapel Nazareth) yr oedd y fynedfa i'r felin. Gosodwyd y tir (rhan o Cefntresaint a Tyddyn Pont Rug) ar les i John Humphreys a John Owen, melinyddion o Hafod y Waen, Waunfawr. Roedd y les i barhau o'r 12fed o Fai 1873 hyd y 12fed o Fai 1913 am rent blynyddol o £12 i'w dalu bob chwe mis. Roedd yn rhaid i'r melinyddion ofalu fod yr holl waith adeiladu a'r holl ffosydd cario dŵr wedi eu cwblhau erbyn y deuddegfed o Fai 1874. Roedd angen i'r cyfan fod yn barod felly o fewn blwyddyn union i ddyddiad cychwyn y les. Mae geiriad y cytundeb yn pwysleisio manylder y gwaith: *'... completely finish fit for use ... in a good substantial and workmanlike manner with proper materials a substantial water power mill and a stone wall, 4'6" high around the land'*. Byddai angen gwario £400 ar wneud hyn. Yn ogystal â hyn, roedd angen cynnal a chadw'r felin yn rheolaidd. Bob pedair blynedd roedd yn rhaid peintio, staenio neu oelio pob gwaith coed a haearn.

Bu John Humphreys, un o'r ddau felinydd gwreiddiol, farw ym mis Hydref 1887, ond mae'n amlwg fod meibion iddo yn parhau gyda'r busnes. Mae copi

o gytundeb arall ar gael rhwng Assheton Smith ac aelodau o deulu John Humphreys, gan gynnwys Anne Humphreys, Bron Seiont (ei weddw), John Humphreys Jones, ffermwr o'r Felin Wen, Pontrug; Margaret Newton Hughes o Stryd Marcus, Caernarfon; Catherine Humphreys (di-briod) o Bron Seiont; Michael Humphreys (clerc i gyfreithiwr); Humphrey John Humphreys a Robert Humphreys (y ddau olaf yn cael eu disgrifio fel gwneuthurwyr llechi ysgrifennu). Enwir John Owen, y partner gwreiddiol, yn yr un cytundeb. Dyddiad y cytundeb hwn yw Chwefror 1900. Mae'n ymddangos yn ôl mân nodiadau ynghlwm wrth y cytundeb fod tân wedi llosgi



Y ffordd yn arwain o Tyddyn Pont Rug tua'r felin. Yn ôl y cytundeb gwreiddiol roedd hon yn ddeg troedfedd o led.



Adfeilion y Felin fel ag y mae heddiw.

adeiladau'r felin. Ond pa bryd yn union y digwyddodd hynny?

Mae un enw arall yn dod i'r amlwg. Mae Anne Humphreys, gwedd John Humphreys, yn arwyddo cytundeb 1900 yng ngwydd Robert Owens a ddisgrifir fel gwneuthurwr llechi ysgrifenedig. Rhwir ei gyfeiriad fel Pontrug Slate Works. Tybed ai'r un lle oedd y Pontrug Slate Works a'r felin?

Mae dogfennau diweddarach yn cyfeirio at y Felin fel Cefntreseiont Factory. Yn 1925 mae'n cael ei throsglwyddo oddi wrth gŵr o'r enw T. J. Lake i James Starkey, 9 St Tudwal's View, Pwllheli. Prynw'r hen geffylau (knacker) oedd hwn wrth ei waith. A fu defnydd ar yr hen felin i'r gwaith hwn tybed? Cwta flwyddyn fu'r adeilad ym meddiant Starkey, ac fe'i gwerthwyd eto yn 1926 i J. Ernest Greaves, Glangwna.

Bellach mae'r tir ym meddiant y Gymdeithas Bysgota leol.

Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth am y tân a ddinistriodd y felin, ac am y teuluoedd a fu'n gysylltiedig â hi. Pwy tybed oedd y partneriaid gwreiddiol, a sut fath o felin oedd yn Hafod y Waen, Waunfawr?

CIPOLWG AR ARDAL Y FACHWEN A DINORWIG

Yn ystod y mis cefais fenthg traethawd gan Gwilym Lloyd Jones, Llanrug. Fe'i hysgrifennwyd ar gyfer cystadleuaeth a gynhaliwyd gan Undeb Llenyddol Dinorwig a Sardis yn 1902. Ffugenw yn unig sydd wrth y traethawd, sef 'Anfedrus'. Ynddo ceir llawer o fanion diddorol am ardal Y Fachwen a Dinorwig. Ar ddechrau'r traethawd rhestrir llawer o dai cynnar yr ardal, a chofnodi hefyd pwy a'u hadeiladodd neu pwy oedd yn byw ynddynt gyntaf. Nodir mai Siôn Jones oedd perchennog Ty'n y Mynydd ac mai merch iddo, Catrin Jones, a roddodd y tir i adeiladu Capel Sardis, *'am byth tra rhedo dŵr'*.

Dywedir mai yn y flwyddyn 1786 yr adeiladwyd y ffordd o'r Allt Ddu heibio i'r Hafoty ac i lawr yr Allt Wen at y Cei Newydd ac ymlaen i Glan y Bala — ond fod rhannau ohoni eisoes wedi eu dinistrio erbyn dechrau'r

ganrif hon. Byddai'n ddiddorol ceisio olrhain y 'ffordd' honno heddiw, gan mai llwybr trol gweddol gul fydd mae'n debyg. Ffordd arall y sonnir amdani yw'r un o Ben Llyn i fyny llethrau'r Fachwen tua Dinorwig. Yr enw a roddir arni yw 'Ffordd Wil Rhos'. Oes unrhyw un wedi clywed yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio am y ffordd? A phwy tybed oedd Wil Rhos?

Yn ddiweddarach yn y traethawd, tra'n disgrifio'r cynnydd yn y chwareli llechi, daw enw Wil Rhos i'r amlwg eto. Dyma'r hyn a ddywed awdur y traethawd: *'Dylem grybwyll am hen dyllau oeddynt ar hyd ochrau'r Fachwen, sef Chwarel Wil Rhos fel y'i gelwir ers talm, ond yn awr ant o dan yr enw Chwarel Tŷ Clwb a'r Chwarel Goch'*. Mae'n amlwg fod y ffordd wedi ei hadeiladu i gario llechi Wil Rhos allan o'i chwarel ac i lawr y gelltyd i Ben Llyn.

Mae'n enwi hefyd Chwarel Hogia Llwyncoed a Twll Siôn Ysgoldy, *'... y rhai sydd yn awr yn myned dan yr enw Chwarel Vivian'*. Mae'n ddiddorol nodi fod rhai o deulu'r Llwyncoed wedi ymsefydlu yn ardal Dinorwig yn gynnar — Evan siôn Michael (ganed 1788) yn byw yn Glan Gors, a'i frawd John Siôn Michael (ganed 1786) wedi priodi ag Ellen Ellis (teulu Hafoty a Glan y Bala) ac yn byw yn Minffordd. Tybed ai'r ddau frawd yma a fu'n gyfrifol am ddechrau cloddio llechi yn Chwarel Vivian? A phwy tybed oedd Siôn Ysgoldy?

O ddiddordeb hefyd yn y traethawd mae'r wybodaeth mai Capel Caea Cochion oedd yr enw a arferid am Gapel y Fachwen, ac mai telynr o'r enw William Thomas Owen a adeiladodd y Terfyn.

Os oes gwybodaeth gennych am unrhyw un o'r sylwadau uchod, yna cysylltwch ar unwaith. Cawn fwy o bigion o'r traethawd yn y misoedd i ddod.

DRYCHWYDRAU TOPHET

Gofynnais y mis diwethaf, wrth gyflwyno pennill i chwarelwr oedd yn ymadael â Tophet, a oedd y 'drychwydrau' a enwir yn y pennill yn dal ym mherchnogaeth y teulu. Daeth

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



ateb cadarnhaol oddi wrth Mr R. Thomas, Ffordd Santes Helen, Caernarfon, ŵyr i berchennog y gwydrau gwreiddiol. Math o wydrau *pince-nez* ydynt mewn câs bychan o liw arian, a'r cyflwyniad wedi ei ysgythru'n gain ar y câs.

Teulu o Ddwyran ym Môn oedd y Thomosiaid yn wreiddiol a daeth tri brawd drosodd i Chwarel Dinorwig i weithio. Roeddent yn aros yn y barics. Ymgartrefodd dau ohonynt ym Montnewydd gan barhau i aros yn y barics a cherdded o'r Bontnewydd drwy'r Waunfawr a

throsodd i Lanberis bob wythnos nes daeth bysus i gario gweithwyr i'r Chwarel.

Roedd Richard Thomas yn bysgotwr ac yn wneuthurwr plu pysgota penigamp. Mae'n debyg i'r 'drychwydrau' gael eu cyflwyno iddo i'w helpu gyda'r grefft honno. Dywedodd ei ŵyr fod ei holl offer cawio plu wedi eu rho'n anrheg i bysgotwr o Lanrug. Pwy tybed?

Mae'r llun yn dangos y brodyr o'r Bontnewydd wrth eu gwaith yn y chwarel. Tybed ai yn Tophet y tynnwyd y llun?

Gwraig y Tŷ yn yr Ardd

Mae'r gwanwyn wedi dod er gwaethaf y tywydd garw dros y Pasg. Mae'r BBC hefyd wedi deffro a chawn raglenni o'r Clwb Garddio. Gobeithio fod merched sy'n garddio yn gwylio'r rhaglen bob wythnos. Fydda i byth yn colli'r rhaglen a diolch byth yn dysgu rhywbeth o'r newydd.

Mae'r cennin Pedr wedi chwythu'i blwc — pam yr enw yna ar y daffodil yn Gymraeg? Dywedir mai lili'r grawys ydi'r enw. Tybed ai dyna'r rheswm dros yr enw Pedr? Oes rhywun yn gwybod?

Dylid eu codi o'r potiau a'u rhoi o dan bridd i orffen gwywo. Yna eu codi a'u sychu a'u cadw i'w hail blanu yn yr hydref. Bydd lle yn y potiau mawr i roi planhigion yr haf gyda mynawyd y bugail, alyssyum a'r lobelia glas — alyssyum melyn hefyd yn cynyddio dros ymyl y potiau. Buaswn yn hoffi cael begonia hefyd, ac efallai y caf rai yn fuan, mae'n bartner bach mor ddel i'r mynawyd y bugail.

Fyddwch chi'n hoffi blodau gwyllt? Mae yna lwybr yn Llanrug yma sydd yn croesi afon fach ac yn mynd drwy weirglodd Talybont. Wrth y gwrych mae yna wyddfid yn tyfu ym mis Mehefin a dyna arogl hyfryd, ac

yno hefyd mae arogl brenhines y weirglodd (meadowsweet). Dyna le bendigedig i fynd am dro a chlywed sŵn yr afon fach yn mynd am yr afon fawr ym Mhontrhythallt. Peth braf ydi byw yn y wlad, ond pam sôn am frenhines y weirglodd wrth sôn am yr ardd? Mae gen i dri math o astilbes, spirea ydi'r enw arall, blodyn sy'n debyg iawn i frenhines y weirglodd — un pinc, coch a gwyn — blodau'n dod o flwyddyn i flwyddyn.

Flynnyddoedd lawer yn ôl yr oeddwn ar goll y tu allan i stesion Euston yn Llundain — ond stori arall ydi honno — ac yn sefyll yn disgwyl i rhywun oedd i ddod i fy nghyfarfod, dyna lorri fawr yn mynd heibio efo llwyth o'r spirea pinc mewn potiau arni, yn mynd i rhyw erddi neu'i gilydd, mae'n debyg. A dyma fi'n meddwl yn ddiweddar — er pan rwyf yn garddio ffasiwn newydd yma mewn potiau — beth am roi'r spirea mewn potiau o flaen y tŷ.

Rwyf wedi cael tri planhigion tomato i'w planu yn y tŷ gwydr, a bydd blodau'r hydref — y chrysanthemums — yn eu potiau yn dod allan yn fuan i'r awyr iach.

Wel, dyna ddigon am y tro. Hwyl i bob gwraig tŷ yn yr ardd.

CYMORTH I'R CYMUNEDAU

Gwybodaeth gan Mantell Gwynedd

Arian Loteri i'r Celfyddydau

Mae arian ar gael i hybu gweithgareddau celfyddydol, hynny yw, y celfyddydau yn ei ystyr ehangaf, o ddram a llenyddiaeth i gerddoriaeth a chrefft. Mae tair seminar wedi eu trefnu ar draws Gwynedd yn cael eu harwain gan Catrin Williams o Uned Loteri'r Celfyddydau am 7.30 p.m. Bwriad y nosweithiau yw rhoi cyfle i grwpiau glywed beth sydd ar gael a sut i gael ato. Cynhelir y seminar yn Mantell Gwynedd, 24 Stryd Fawr, Caernarfon (01286) 672626 neu (01341) 422575.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

CHIROPODIST

Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

**57 Glanffynnon
LLANRUG**

Ffon:

(01286) 675754

Cynhadledd

Bydd Cynhadledd ym mis Mai i drafod Datblygiad Cymunedol ac Addysg gyda siaradwyr o Iwerddon a De Cymru. Bydd yn gynhadledd deuddydd ym Mangor, Mai 21-22, gyda noson gymdeithasol ar y nos Iau yn Nhafarn Gydweithredol y Fic, Llithfaen.

Phab Cymru

Ydych chi'n mwynhau codi arian at achos da? Os fely mae Phab Cymru eich angen chi. Byddech yn derbyn cefnogaeth lawn gan weithiwr maes y mudiad yma sydd â'r nod o ddod a bywydau pobl abl ac anabl at ei gilydd yn y gymuned. Os oes gennych ddiddordeb y cysylltydd yw Lisa Leece (01745) 890431.

Adfywio Bro

Bu'n gyfnod o gyfarfodydd di-ri yn hanes trigolion Waunfawr a Chaeathro yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gydag arweiniad Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwryfai, daeth y grwpiau amgylchedd, hamdden a busnes at ei gilydd i ffurfio cwestiynau ar gyfer yr arolwg bro. Fe godwyd nifer o bwyntiau diddorol a syniadau gwreiddiol yn ystod y cyfarfodydd a chofiwch bod croeso i unrhyw un o drigolion y ddau bentref ymuno yn y broses gyffrous yma — cysylltwch ag Eirian, mae ei rhif ffôn ar waelod y golofn.

Bu Eifion Jones, Swyddog

Adfywio Bro Peris, hefyd yn brysur gyda nifer o gymdeithasau ac unigolion, yn eu plith Cymdeithas Adfywio Deiniolen. Bu'r grwpiau thema yn parhau'r gwaith o flaenoriaethau prosiectau ar gyfer y pentref ac mae syniadau da yn dal i ddod ymlaen. Mae yna hen edrych ymlaen i weld pethau yn datblygu yn Manchester House ac mae'r gymdeithas yn edrych ar statws Cwmni Cymunedol fydd yn gallu rhoi manteision cyfreithiol iddi yn y dyfodol.

Erbyn hyn mae Cyngor Gwynedd yn gwahodd ceisiadau am grantiau amrywiol o dan deitl 'Cist Gwynedd' sydd i'w cwblhau erbyn dydd Llun, 11 Mai 1998. Ydych chi'n gorff sydd â phrosiect a all arwain at adfywio cymunedau a chryfhau'r economi wledig? Mae'r mathau o gynlluniau'n amrywio'n fawr o sefydlu clwb gofal plant i ddatblygu adeilad segur fel gweithdy.

Cysylltwch ag Eirian ar (01286) 650779 neu Eifion ar (01286) 870977 am fanylion Cist Gwynedd. Neu galwch i weld Eirian yng Nghanolfan Cymunedol Waunfawr neu Eifion yng Nghanolfan Croeso Llanberis a gwneud y mwyaf o'ch Gwasanaeth Adfywio Bro a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd gydag arian Ewropeaidd.



WAUNFAWR

BRYN PISTYLL

WAUNFAWR, CAERNARFON

(01286) 650 721

Llun — Sadwrn 10.00 a.m. — 4 p.m.

*Dewch am dro i'n meithrinfa blanhigion, siop garddio,
parc natur, siop grefftiau a chaffi.*

Mae gennym barc chwarae newydd sbon i'r plant.

Rydym nawr ar agored bob dydd Sadwrn hefyd.

Taith Ddirgel — Ffŵl Ebrill

Fore Mercher — Ebrill y Cyntaf — gwnaed tric, yn ysbryd y dydd, ar rai o drigolion Plas Pengwaith, Llanberis, eu gwarchodwyr a'u ffrindiau, pan drefnwyd trip i rywle anhysbys, trwy garedigrwydd Mr Gwilym Rees Parry o 'Teithiau Grug' a swyddogion gofal y Plas.

Cychwynnwyd yn rhadlon toc wedi deg dan ofal Gwilym, y gyrrwr a'i gyfar Geraint Huws Roberts. Roedd pawb wedi eu tywys yn hwylus i'w seddau gan warchodwyr tyner eu gofal am les yr anafus.

Gan na wyddai neb ond y gyrrwr a'i gyfar fe ddyfalai hwn a'r llall i ba gyfeiriad y byddent yn debyg o fynd.

Tua Caer daeth si o gyfeiriad y llyw mai am Brum (Birmingham) oeddent yn torri cwys ond wedi cyrraedd yr M6 buan y sylweddolwyd mai tua'r gogledd y cyfeiriai'r llyw ac nad oedd y sôn am Brum ond tric Ffŵl Ebrill.

Roedd pethau'n dechrau dod yn amlwg wrth weld 'Preston' a'r gogledd ar yr arwyddion, mai Blackpool oedd y gyrchfan a chan fod 'cinio mewn gwesty' ar y rhaglen, ble arall ond y Gresham Hotel, ffynhonnell y bywyd Cymreig yn y fangre honno.

Cyrhaeddwyd Lymm, ger Warrington toc wedi hanner dydd a chafodd y teithwyr gyfle am fyrbryd, a baratowyd gan staff cegin Pengwaith, a diod cynnes. Wedi gwneud ein hunain yn gyfforddus, i ffwrdd â ni eto a chyfaddefodd Gwilym a'i gyfar mai gwir oedd y dyfalu, gan rai gerllaw, am Westy Toni ac Aloma.

Ymhen sbel daethom yno ganol pnawn a siarswyd y rhai oedd 'droedrydd a ffansi ffri' am y siopau, i fod yn ôl cyn pedwar ar gyfer cinio cynnar.

Bu yr helyw ohonom yn helpu yr anafus i lolfa'r gwesty a chafwyd cyfle am banded a sgwrs i ddifyrru'r amser. Ymddangosodd Toni â'i gitâr i'n diddanu cyn cinio gan fod y 'bôs' (Aloma) yn brysur yn y gegin. Rhwng pilliau o ganu caed sgwrs a thynnu coes, ei fod ef fel hen lanc canol oed, â'i lygad ar fagiaw llaw y merched, chwaethach eu

coesau siapus. Gwelsai un ferch, nid anadnabyddus, yn cydio yn dynn â'i dwylo mewn bag mawr sgleiniog a syniai fod honno'n 'fodan â macs ganddi'. Wedi canfon fod rhyw ddyrnaid o Saeson yn ein plith ceisiai gael eu barn am eu cyd-deithwyr Cymreig, ond prin fu'r ymrafael.

Cafwyd cinio toc o gawl cennin pêr ei sawyr neu sudd ffrwyth a golwyth o gig oen â saws mint, brocoli a moron, taten rôst a thatws berw yn nofio mewn grefi hyfryd ei flas. Yn waddod caed 'peach Melba' neu hufen iâ a phaned i'w gloi.

Yn syth ar ôl gorchwylion y gegin daeth Aloma a'i phriod at yr organ; Toni a'i gitâr yn pyncio mewn deuawd a'i gyfar. Canwyd yn frwdfrydig yr hen ddyriau poblogaidd o'u rhaglenni gynt yng Nghymru ac ymunai y gwrandawyr yn afieithus yn y wledd o sain a chân. Nid anghofiwyd y dyrnaid Saeson yn y cwmni, gydag ambell ffeffryn o'r iaith fain.

Ar derfyn y cyfarfod cawsom brofi eto y gofal tyner ac annwyl wrth gynnal a gwarchod yn anafus er eu lles a'u cysur ar gyfer y daith adref. Ni ellir diolch digon am bobl ifanc yn rhoddi o'u hegni a'u hamynedd i weini cysur ar gyrff anafus eu deiliaid yn y cartrefi henoed. Roedd ffisig a philsen ar gyfer pob un o'u hanafus (yn ôl y galw) yn ei bryd ar y daith yn ôl, sy'n amlygu y gofal a'r cyfrifoldeb a estynnir iddynt. Enwaf ddau, sef Manon a Derek a sylwaid arnynt yn eu hymdrechion i leddfu poen ac adfer urddas yr unigolyn yn ei sefyllfa argyfyngus.

Trwy'r gwyll, mewn cawodydd egr, teithiwyd, trwy sgil y gyrrwr, yn hwylus i Lymm, Warrington, i adfer un anafus a gafodd driniaeth ar ôl anffawd wrth ddod.

Rhyfeddod enbyd fod gogledd Cymru yn sych er gwaethaf y

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

PRIODASAU. Llongyfarchiadau i Dafydd Morris a Julie Edwards ar eu priodas ar 4 Ebrill, maent yn byw yn Frondeg. Wythnos yn ddiweddarach, ar 11 Ebrill, priodwyd Aled Thomas a Jill Roberts sy'n byw yn Llwyn Onn, Stad Glandŵr. **NEWYDD-DDYFODIAID.** Yn ystod y mis bu newid perchnogaeth dau dŷ ar Stad Glandŵr. Mae Vernon ac Yvonne Jones wedi symud i'r Gilfach o Lon Penybryn. Hefyd mae John a Laura Griffiths wedi symud i Rhanna o Rhos-lan. Gan fod Tŷ Newydd wedi'i werthu hefyd bydd cryn dipyn o waed newydd yn un gongl o'r pentref.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Mai:

3: Parchg W. R. Williams (2)
10: Parchg Huw Gwynfa Roberts (2)
17: Parchg Iorwerth Jones Owen (2)
24: Parchg Eric Jones (5.30)
31: Parchg Gareth Alban (10)
Croeso cynnes i bawb.

Y FYNWENT: Cyhoeddwyd cyfrol sy'n cofnodi aysgrifau cerrig coffa mynwent Capel Caeathro gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd. Cofnodwyd y cerrig coffa gan aelodau o Sefydliad y Merched, Bontnewydd yn 1982. Mae'r gyfrol ar werth am £6.50 oddi wrth y Gymdeithas d/o Cwm Arian, Pensarn, Amlwch, Ynys Môn.

Oherwydd ei maint mae costau cynnal y fynwent yn un drwm iawn i'r Capel gyda chyfraniad oddi wrth y Cyngor Cymuned. Mae trysorydd y fynwent, Deiniol Huws, Tŷ Mawr, yn ddiolchgar iawn am gyfraniadau tuag at Gronfa'r Fynwent.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Iona a Huw Ceiriog, 4 Erw Wen ar enedigaeth merch, Betsan, jest mewn pryd i hawlio wy Pasg!

Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Ebrill oedd — £40: Anwen a John Pritchard, Glan Gors Newydd (38); £25: A. Owen, Isfryn, Tai Glangwna (74); £15: Michael a Frances Wyn Williams, Bodwyn (8); £5: Peris Thomas, 4 Bryn y Gof (54). Croesawyd dau aelod newydd i'r pwyllgor, sef Norman Hughes, Llyngele a Tim Lloyd, Bodawel.

MARWOLAETH. Ddydd Mawrth cyn y Pasg bu farw Eluned Mai Jones yn ddistaw yn Ysbyty Bryn Seiont. Roedd hi'n chwaer i Aled, 3 Bryn y Gof. Roedd Capel Caeathro'n llawn i'r gwasanaeth angladdol fore Sadwrn y Pasg. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu profedigaeth.

CANIATÂD CYNLLUNIO. Mae Isbwyllgor Cynllunio Ardal Arfon o Gyngor Gwynedd wedi rhoi sêl bendith i'r cais cynllunio i ailddatblygu'r modurdy presennol gan gynnwys siop, swyddfa newydd, gweithdy, canopi a golchfa ceir ym Modurdy Gwalia.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Deian Parry Jones, Bryn Eglwys ar lwyddo mewn arholiad piano, gradd 4, yn ddiweddar, dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol.

DRAENOG



Tra bo Bobby Gould wrthi'n brysur yn perswadio ambell chwaraewr i droi'n Gymro am gyfnod byr mae un o gyn-reolwyr tîm pêl-droed y Darans isio bod yn Sais. Mae o eisoes wedi dechrau gwisgo trowsus ag arno fathodyn llewod y Saeson. Ei esgus oedd mai dyna'r unig drowsus oedd yn ffitio'n gyfforddus wedi iddo gael triniaeth ysbyty i'w benglin. Fel basa'r Sais yn deud, tynn y goes arall. Aw!

llwybr llaith a adawsom yn Lloegr. Goleuadau a cheir yn gwibio heibio oedd yn ein haros weddill y daith ond i dorri ar yr undonedd bu Geraint, gynt o Lanrug, yn adrodd storïau ac argraffiadau o'i lencyndod yn y Capel Mawr ac yn ymdrin ag odrwydd rhai o'r cymeriadau a adnabu gynt, er mawr adloniant i'w wrandawyr.

Canwyd ambell gân adnabyddus a chyrhaeddwyd adref mewn da bryd i glwydo yn barchus.

Trwy holl dreialon y dydd, un yn unig a wnaed yn ffŵl — a HENAI NT oedd hwnnw!

ROBERT WILLIAMS
Llain Gwta, 5 Gwelfynydd, Llanrug

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm

★ Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PLYGU'R ECO. Diolch i bawb ddaeth i blygu rhifyn diwethaf o'r Eco, ac yn arbennig i Arwyn, Carys, Karah a Geraint.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs John C. Jones, 21 Dôl Afon ar ddod yn hen daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Lowri Pierce Frazer, i Debbie a Howard, merch yw Debbie i Susan a Cledwyn Jones, Bro Rhos, Bethel.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Williams (Anti Nel), Pantafon sydd yn Ysbyty Gwynedd wedi damwain yn ei chartref.

GARTREF O'R YSBYTY. Dymunwn wellhad buan i Mrs Enid Price, Stryd Newydd; Mr Len Parry, Hebron; Mr Cepas, 2 Maes Gerddi; a Mr Richard Humphries, Oriel Cwm ar ôl derbyn triniaethau yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i deulu y ddiweddar Mrs Jennie Vaughan Williams, Caernarfon (gynt o Fryn Crwn). Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Margaret Williams, Bryn yn ei phrofedigaeth o golli ei hewythr, Mr Robert Jones, Penhafodlas, Ceunant.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug nos lau Cablyd, 9 Ebrill. Dechreuwyd y cyfarfod gyda gwasanaeth gan Mrs Dorothy Jones. Darllenwyd y colectau am Dydd lau Cablyd gan Mrs Hilda Orritt. Derbyniwyd ymddiheuria oddi wrth Mrs Marjorie Roberts. Darllenwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth a thrafodwyd rhai materion a godwyd yng nghyfarfod yr ymddiriedolwyr gan Mrs Jones.

Bydd Bore Coffi ar 5 Mehefin yng Nghanolfan Esgobaethol Bangor. Cynhelir Gwasnaeth y Ddeoniaeth yn Eglwys St. Mair, Bangor ar Mehefin 18fed.

Mrs Anna Chambray oedd y wraig wadd a chafwyd noson ddiddorol yn gwrando arni'n sôn am ei gwaith fel un o swyddogion Cymorth i Ferched. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs M. Latham a Mrs Kath Jones, a diolchwyd iddynt ac i Mrs Chambray gan Mrs Gwyneth Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Latham ac fe'i henillwyd gan Mrs H. Orritt. Terfynwyd y cyfarfod gyda'r gras. Bydd y cyfarfod nesaf, Moes a Phryn, ar 14 Mai.

CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON YSGOL CWM-Y-GLO. Mawr ddiolch i'r rhieni a'r athrawon gweithgar a fu'n brysur yn y Ffair Wanwyn a gynhaliwyd yn yr Ysgol ar Ebrill 1af. Diolch hefyd i Mrs Orritt, Christine, Rhian ac i bawb am eu rhoddion a'u cefnogaeth. Enillwyr y raffl oedd — 1, Rhian Jones; 2, Siôn Arfon; 3, Medi; 4, Iris; 5, Ceri Davies; 6, Doreen Roberts; 7, 14 Dôl Afon; 8, Geraint; 9, Derek Roberts; 10, Tan-y-bryn; 11, 01248 870074; 12, Dilys; 13, Enid Price; 14, Ann Fleming; 15, Catherine Roberts; 16, Cath Green; 17, 871538; 18, A. Cummings; 19, Alwyn Day; 20, Wanda; 21, Ceri Davies; 22, Siân, Dôl Afon; 23, Julie.

Enillwyr y cystadlaethau oedd — Addurno Wy: 1, Anest; 2, Siôn Arfon; 3, Leon. Cardiau Pasg: Meithrin a Derbyn — 1, Ffion; 2, Dewi Rhys; 3, Rebecca. Blwyddyn 1 a 2: 1, Huw; 2, Siôn Arfon; 3, Elin. Blwyddyn 3 a 4: 1, Ceri Lloyd; 2, Alwyn; 3, Kate. Blwyddyn 5 a 6: 1, Lona. Enillwyr Het Pasg — 1 Genethod: Teulu Ceri Bryn; Ffion. 1 Bechgyn: Siôn Arfon.

NEWYDDION O'R YSGOL. Cynhaliwyd Ffair Pasg lwyddiannus eto eleni. Diolch i bwyllgor y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am ei threfnu. Diolch hefyd i bawb gefnogodd y gweithgareddau gan sicrhau elw o dros £300.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Mawrth oedd Mrs Esme Jones, Dôl Afon a Mr Gwilym Williams, Bryn.

Ddiwedd y tymor roeddem yn ffarwelio â Miss Ruth Evans o Goleg Menai. Daeth ei chyfnod yn nosbarth y Babanod i ben. Diolch i chwi Ruth am eich cyfraniad a dymuniadau gorau i chwi yn y dyfodol.

Yng Nghymanfa'r Annibynwyr a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, cyflwynwyd y gwasanaeth dechreuol gan Ceri Angharad, Ceri Bryn, Clair Pritchard a Katrina Cullen. Diolch yn fawr genod am eich cyfraniad gwerthfawr ac am gadw cwmni i Mrs Mair Huws!

YR URDD. Llongyfarchiadau i Sara Jones ar ddod yn gyntaf yn yr adran tecstilau dan 8 oed yn Rhanbarth Eryri. Pob lwc rwan i'r gwaith sidan ym Mhwillheli.

Yn Eisteddfod Rhanbarth Eryri ym Mangor daeth Elin Morris yn drydydd

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Treuliwyd orig hwyliog yng nghwmni Eirug Wyn o'r Groeslon yng nghyfarfod mis Ebrill, a diolchwyd iddo gan Mair Read.

Cydymdeimlwyd gyda Ann Lewis wedi colli tad yng nghyfraith a Liz Watkins wedi colli nai ieuanc yn Harlech mewn damwain. Llongyfarchwyd Siân Hughes ar ddod yn nain i Alaw, merch fach i Sioned. Hefyd Anest Williams, merch Eirlys Williams ar ennill Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod y Groeslon. Seirion Owen, Crud yr Awel oedd yr un ddewisodd y dyddiad cywir yn y Dyddiadur gan ennill tocyn gwerth £30 at bryd o fwyd yn y Bistro yn Llanberis. Diolch i bawb fu'n gwerthu a phrynu.

Gwestwagedd y te dan ofal Eryl Roberts oedd Edwina Morris a Sharon Quinn ac enillwyd y raffl gan Nancy Williams.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Mai 13 am 7.30 o'r gloch. Bydd y wibdaith i orffen y tymor yn cael ei threfnu ar gyfer nos Fercher, 10fed.

CLWB 200 Y NEUADD GOFFA. Enillwyr mis Mawrth oedd — £20: Eirlys Sharpe, Ael-y-bryn (77); £10: Pat Hughes, 11 Stad Eryri (42); £5 yr un: Jean Vize, Cefn Rhos (90);

Wyn Evans, Parciau Rhos (174); Bessie Elis, 15 Cremlyn (24); Jack Foulkes, 6 Tan-y-cae (28); Annie Humphreys, Ty'n Rhos (149); Beti Owen, Crud yr Awel (76); Eleri Warrington, Wern Bach (15); Cheryl Williams, 2 Bryn Hyfryd (163).

CYMANFA YSGOLION SUL PADARN. Cynhelir y Gymanfa eleni yn Rhiwlas brynhawn a nos Sul, Mai 3ydd. Arweinydd y gân eleni fydd Sioned Meleri Owen, Cefn Cynrig. Bydd bws yn cychwyn o'r Cysegr am Rhiwlas am 1.30 a bydd yn dod yn ôl ar ôl te.

CYDYMDEIMLO. Ddydd Gwener, Ebrill 17, bu farw Mrs Ellen W. Morris, Fachell, Llanddeiniolen. Estynir pob cydymdeimlad i'r teulu yn eu profedigaeth.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Ifan Rowlands, 23 Y Ddôl ar lwyddo mewn arholiad piano, gradd 5, yn ddiweddar dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol.

CAPEL CYSEGR. Cynhelir Noson Goffi gyda stondin cynnyrch cartref yn festri'r Cysegr nos lau, Mai 14eg rhwng 7 a 9 o'r gloch. Tocyn mynediad fydd 50 ac fe rennir yr elw rhwng y Capel a Chymorth Cristnogol.

DRAENOG

Roedd 'na ddyn llefrith yn cael cryn drafferth efo'i fan ar Stryd Fawr, Deiniolen. Roedd o'n eistedd yn y fan â golwg reit flin ar ei wyneb — roedd o'n methu'n glir â chael y fan i symud er iddo ei tharo'n ei gêr, gollwng y brêc a chodi'r clutch . . . doedd dim byd yn digwydd. Ond GWILYDD mawr daeth dyn bach clên heibio gan awgrymu iddo danio'r injan! Gwnaeth hynny, a syndod mawr, fe symudodd y fan!

ar lefaru dan 8 oed. Da iawn chi genod.

I gloi gweithgareddau'r Urdd am eleni aeth pymtheg o blant Bl. 5 a 6 gyda Mrs Jên Roberts a Mrs Mair Huws am benwythnos i Wersyll Glan-Ilyn. Oer a gwlyb oedd dechrau'r gwyliau ond cafodd pawb ddigon o hwyl ac ychydig iawn o gwsgr!

DRAENOG



Llongyfarchiadau i gynhyrchydd teledu o Lanberis a enillodd DDWY wobwr yn noson wobrwyo BAFTA Cymru yn ddiweddar. Derbyniodd ddau o'r tlysau arbennig i nodi'i gamp . . . Ond . . . mae'n debyg mai UN yn unig oedd ganddo erbyn cyrraedd adra — roedd o wedi llwyddo i golli un ohonyn nhw yn ystod y swper dathlu — Beth A Fu i'r Tlws Arbennig!

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol LLANBERIS

Ffôn: (01286) 871680

Bistro


LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDEA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddatlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas. Partion rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion. Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro nos Wener olaf bob mis



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:- Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349 (0589) 899901

Llythyr o'r 'Mericia

Cambria, P.O.
Wisconsin,
U.S. America
May 17th 1884

Anwyl frawd,
Derbynniais dy garedig lythyr dydd Mawrth diweddf, ac yr oeddwn yn falch iawn ohono, a deall oddiwrtho dy fod yn gwella mor dda. Yr oedd yn dda iawn gennyf ddeall oddiwrth dy epistol nad wyt yn teimlo yn ddigalon, achos mae digalondid yn gwneud i ddyn iach deimlo yn ddrwg, a lle da i un gwael ei wrthsefyll, felly cofia am beidio bod yn ddigalon beth bynnag.

Mae yn bur debyg mai tua Sir Ddinbych y byddi pan ddaw hwn i dy afael, os na byddi wedi dod yn ol o dy siwrnai, cofia ddweud pa fath hwyl fyddi wedi ei gael, a pha fodd y maent tua Betws y Coed, a chofia fi attynt oll yno.

Yr oeddwn yn deall fod yna gryn lygadrythu ar fy narlun, yn wir, mae yn dipyn o galondid i mi nad wyf i weled wedi gwaethgu yn fy ngolwg, buasai hyny yn amais garw i fy lle, ac i fy ngwlad er nad wyf yn credu y parhaf yn y cyflwr hyn yn hir, achos teneuo y mae pawb braidd os y bydd yma am ychydig o flynyddoedd, ond y mae eithriad i hyny.

Mewn cysylltiad a'm gwaith yn troi cefn am modrub druan. Nid oes gennyf ddim i'w ddweud wrthyt ond mai dyna oedd y peth gorau i un i'w wneud, achos y mae llawer iawn o bethau allasai ddod i fy nghyfarfod, pryd y byddai y ffaith fy mod yn ddinasydd yn help anghyffredin iawn i mi. A pheth arall, n id oes yma yr un gobaith i neb am lathen o dir heb iddo fod yn ddinasydd. Nis gwn pa un nai 'rhagrith' ai ynte 'rhgddarparu' ydyw y gair goreu i osod fy ngweithred allan. Mae yn sicr o fod yn un o'r ddau. Mae yn gofyn cael tipyn o Scholer i ffeindio allan pa un.

Mewn cysylltiad a'r gog etto, nis gwn yn iawn beth i'w ddweud, os na ddywedaf fel cefnder i Rev David Lloyd Jones wrth Thomas Levi yn Cambria ers blyneddau bellach mewn cyfarfod llenyddol, yr oedd Thomas Levi yn edliw i'r Americanod nad oedd y gog byth yn canu iddynt, a'i bod hwy yng Nghymru yn gyfoethocach o gymmaint a hyny, a'r hyn a ddywedodd E. O. Jones, mab R. Jones Dolwyddelen, oedd, 'os ydym ni yma yn amddifad o'r gog y mae Whip-poor-will gennyf ni yma,' meddai. A gallaf innau ddweud fod Whip-poor-will wedi canu cân o lwyddiant i ni y noswaith gyntaf y daethom yma. Os ydyw y gog yn ffrindiau mawr gyda dy fodryb y mae whip-poo-will yn gyfaill calon i werinwyr America, ac fel arwydd o hynny daw i ganu cân iddynt yn hwyr y nos i ddifyrru ar ol llafurio yn galed y dydd; pryd y bydd eich boneddiges chwi yna yn hwylio am ei gwely fel chwithau ar ol gorphen ei diwrnod gwaith.

Yr wyf yn deall mai tywydd digon gwlyb ydyw yn parhau yna o hyd. Y mae yn wahanol iawn i hyny yma, y mae yn dywydd sych, ac heb fod yn boeth iawn yma. Tywydd Spring o'r short orau. Y mae pawb o'r ffermwyr yma wrthi yn brysur iawn yn awr er pan yr wyf wedi ysgrifennu yna i ti o'r blaen. Y mae pawb wedi gorphen hau ers wythnosau, ac yn awr maent ar ganol plannu corn.

Hwyrach y carech yna gael rhyw ddychymyg pa faint ydwyf wedi ei weithio ar fferm y Llan er dechreu amser hau. Y mae dau ohonom yn llafurio yma, sef myfi a bachgen ieuanc arall o Gymro at yr un oed a mi, wedi dod yma gyda'i dad a'i fam 14 mlynedd yn ol o Sir Ddinbych yn agos i Ruthin, a ni ein dau sydd yn gweithio y cwbl. Nid ydyw Bob Closs yn gwneud dim ond edrych ar ol y defaid, gwartheg a'r moch, a gadael i ninnau wneud fel y wyddom gyda'r llafurio. Acres yr ydym wedi aredig eleni yw 60 rhyngom ein dau. Yr oeddym yn aredig tua 3 acre yn y dydd bob un, hyny yw gwneud mewn Simple Addition 6 acres per day, a thi weli mai gwaith cyflym iawn ydyw aredig yn America. Yr ydym wedi hau o wenith 20 acre, o geirch 20 acre, o haidd 24 acres, yn gwneud yn gyfanswm o 64 o aceri. Yn awr ers wythnos yr ydym yn trin tir Corn. Y mae gennyf 52 acres o gorn i'w osod yn y ddaear, y mae 27 acres wedi ei blaenu eisoes, ac y mae gennyf 25 acres etto. Byddwn wedi gorphen hwnnw erbyn nos Fercher nesaf os cawn y tywydd hwn i barhau hyd hyny.

Wrth blanu corn yr ydym ein dau yr ydym ein dau yn reidio fel pe baem mewn buggy, un yn drivio a'r llall yn droipio y corn trwy afael mewen handle fechan, a phlwc ar hono bob tro y bydd eisau droipio a bydd hyny mwn pob 4 troedfedd, a phob tro yr awn ar hyd y cae, bydd dwy res o gorn wedi ei phlanu. Gallwn blanu 20 acre mewn diwrnod os cawn hwylusdod. Beth feddyliet o hyn yma, a pha faint a feddyli o hono sydd yn gelwydd nis gwn.

Beth wyf yn feddwl o'r wlad yma eleni ar ol cael golwg arni mewn gwisg newydd mae bur debyg, fuaset yn ei ddyddmuno. Wel yn wir, meddwl mwy bob dydd, y mae yma olygfa ar natur na welais i ei gyffelyb erioed, ac nis gall creadur o feddwl egwan fel myfi byth ei osod allan yr hyn ydyw mewn gwirionedd, y dolydd breision yma wedi brashau mewn ychydig ddiwrnodiau, y coed wedi tarddu allan eu dail yr un modd, a'r rhai hyny yn ddigon a wneud imi neidio o lawenydd wrth eu gweled mor amryliw a phrydferth. Yr egin yd yn tarddu allan ymhen ychydig ddiwrnodau ar ol ei roddi yn y ddaear. Ac yn gymaint ar y cwbl yr haul mawr yn taflu ei belydrau llachar ar y meysydd a'r dolydd, gan wenu arnynt nes eu denu i daflu allan ffrwyth i ddyn ac anifail. Yr wyf yn teimlo fy natur drwyddi wedi

deffro i'w chanlyn, ac yr wyf yn disgwyl mai gwedd adfywiol fydd ar fy llythrau yna yng Nghymru, ar ol bod am gymaint o amser dan glo o ia y tu mewn a'r tu allan.

Y mae yma baratodau mawr iawn ar gyfer y Gymanfa sydd i fod yn Cambria yma y mis nesaf. Y mae yma ddisgwyl mawr iawn amdani, a neb mwy na mi rwy'n sicr, achos nid wyf wedi cael dim hwyl ar un pregethwr a fu yma er y Cyfarfod Misol, ond yr hen dad Mr Jones, y mae ef yn dda er mai hen bregethau wedi eu rhygnu ganddo lawer gwaith cynt ydynt, ond etto mae yr hen ysbryd Talsarn ynddo a dadlau mawr wedi'r cwbl. Yr wyf wedi bod yn gwrandaw ar rai bregethwyr, nad oedd eu holl gyfansoddiad yn werth botwm corn (chwedl R. Ellis). Gelli feddwl fy mod yn awyddus am y Gyfanfa, er mwyn cael hufen Wisconsin.

Y cyfarfod goreu a fyddaf yn ei gael yma yw yr Ysgol Sul. Y mae gennyf Ysgol Sul dda iawn er nad yw ond bechan, etto y mae mwy o fawredd ynddi na llawer o rai lluosocach, ac yr ydym yn darllen yn 17 benod o Ioan, ac yn cael pleser mawr iawn. Y mae yn fy nosbarth yn rhifo tua 15.

Bu Ellen a Lizzie yma dydd Iau. Byddaf yn eu gweled bob wythnos a rhyfedd y twchu maent wedi ei wneud er pan ydynt yma. Y maent yn edrych yn hynod o dda. Gallaf fentro dweud fod Ellen wedi mendio yn ei gwedd, ac am Lizzie, y mae yn anystwyth o dew. Y mae arnaf ofn y bydd yn rhaid iddynt ddod yn ol am Llandrindod i gael eu tynu i lawr. Nid wyf yn meddwl yr erys Ellen yma ond hyd ddiwedd yr haf, achos y mae John ei brawd yn ei hudo yno atto ef. Ond os aiff yno fe wnaiff tro ffol iawn ar rhan ei hun achos y mae y States yma fel yr awn i'r East yn myned yn fwy afiach i rai fel Ellen, ond fel yr awn i'r West y mae yn myned yn iachach o lawer.

Beth wnaeth Edward Ty Gwyn, a ydyw wedi gadael ei wraig? Yr oedd John Ellis yn rhoddi gwedd felly yn ei lythyr i mi. Yr wyf wedi dweud wrth ei deulu yma amdano, ac nid ydynt yn synu dim achos fe wnaeth ei frawd Griffith yr un trick yma, ac nid oes neb yn gwybod dim o'i hanes ers blyneddau. Y mae rhai o'r teulu yma yn credu ei fod wedi ei ladd yn rhywle, a'r rhan arall yn credu mae mewn ymguddfa y mae yn y wlad fawr yma. y mae ei wraig wedi cael divorse ac wedi priodi gydag un arall. Yr unig beth a gawsant oedd ei Trunks wedi eu gadael mewn pentref yn Manitoba, ac mae rhai yn meddwl mai cyfarfod a'i ddiwedd yno wrth fyned i'r wlad i chwilio am dir a ddarfu. Mae John, a Morris a Humphrey Rowland yma yn credu yn gydwobodol mai dianc a wnaeth, achos arwyddion o hen chap oeddynt hwy yn ei weled ynddo pan fu y ffordd yma ychydig fisoedd cyn mynd i Canada. Yr oedd Griffith Bethel yma gydag ef, ac yr oeddynt

yn dweud mai dyn clyfar iawn oedd Griffiths fel yr oedd John Owen yn dweud amdano yn hanes ei daith yn Canada.

Y mae Humphrey Rowlands wedi derbyn llythyr oddiwrth Ellen Treborth o'r East, ac y mae hi yn dweud yn ei llythyr fod Edward wedi prynu fferm yn State York a'i fod wedi anfon am ei wraig a'i blant yno. Y maent yn adwaen Ellen yn dda y ffordd yma ac yn ei hactio yn ddoniol iawn. Gallwn feddwl mai o uchelder ysbryd sydd ynddi hithau pryd mewn gwirionedd nad ydyw yn fforddio iddi fod felly. Y mae yn correspondio llawer a'r teulu yma, ac yr oeddynt wedi methu yn lan a chael allan ganddi pwy oedd gwraig Edward, hyd nes yr hysbysais i hwynt. Cofia ddweud dipyn o'i hanes. Y mae ei deulu yn awyddus iawn am ei hanes ac yn fy holi o hyd a ydwyf wedi clywed rhywbeth yn ei gylch.

Bu un o deulu Pen-y-Gwryd yma yn Milwaukee yr wythnos o'r blaen a phwy ddarfu iddynt daro arno ond Robert Roger Williams ac yn y scwrs rywfodd, digwyddodd iddo ddweud amdana i, fy mod yn Cambria yma. yr oedd wedi synnu tipyn, ac yn holi yn arw iawn yn fy nghylch. Y mae ganddo ef chwarel ar lan Lake Superior, ac yno y mae yn byw. Dywedodd Morris Rowlands, gan fy mod yn chwarelwr, y cawswn waith ganddo, a'r lle goreu allasai gael i mi, er mwyn fy mam. Yr wyf wedi clywed llawer iawn yn son amdano er pan wyf yma ac y maent yn dweud ei fod mewn sefyllfa dda iawn. Gallwn dybied ei fod fel Roger yn ei weddi; y mae yn ddyn duwiol iawn, ac yn flaenor gyda'r Hen Gorph.

A ydyw John Parry yn gyrru dipyn o'i hanes yna? Dywed wrthyf pa fodd y mae yn rhoddi gair o Dakota, pa un ai gair da, a'i drwg.

Derbynniais lythyr gan Ellen Plas Coch ddod ynghyd ai darlun. Yr oedd yn edrych yn un da iawn ohoni.

Dipyn o hanes y Rev. G. Humphrey a Laura A. Jones y tro nesaf os ydych yn gwybod mwy nag sydd wedi ei brintio. Gwelais ei hanes yn y Genedl a dderbynniais ddod. Y mae pawb braidd down ar Laura ac yn dyrchafu Rev. Ac yn ol fy meddwl i y mae ganddi dystiolaethau anwrthwynebol. Yr wyf wedi ffræo llawer yn eu cylch gyda hwn a'r llall. Oh dear! Dim use son fod G. Humphrey yn euog, a'r hyn wyf fi yn ei ddal allan ydyw gan fy mod yn adwaen Laura, nad ydyw yn ddigon smart i ddod a chamdystiolaethau yn ei erbyn fel mae pawb yn dweud yma; lol i gyd. Mae yn rhaid fod y dyn wedi rhoi lle iddi i'w erlyn.

Wel rhaid tynu am y terfyn neu mi af yn ddiflas gan feithder. Yr wyf yn hyderu y byddi yn gwella yn dda yn y trampo yn Trefriw a Sir Ddinbych. Felly derbyn fy nghofion am dymuniadau goreu i ti a phawb oll o'r teulu.

Ydwyf dy frawd,
OWEN



Uned 1A BRYNAFON LLANRUG

Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaedddech mewn steil —
mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, penblwyddi
ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Mathew Phillips ddaeth yn drydydd yn yr unawd piano yn Eisteddfod Sir yr Urdd.

ADRAN URDD BENTREF. Mwynhawyd amrywiol weithgareddau yn ddiweddar. Mawrth 3ydd cafwyd noson o bingo yng ngofal Ynry. Mawrth 10fed cafwyd noson hwyliog o ganu 'Carioci' gyda Miss Bethan Williams. Diolchodd Sara iddi. Daeth Mrs Delyth Roberts i wneud gwaith llaw Sul y Fam ar Fawrth 17eg. Diolchodd Lois iddi. Gemau a Cwis gafwyd ar Fawrth 24ain gyda Mr Alun Roberts, Caernarfon. Diolchodd Bedwyr iddo. Mawrth 31ain, i orffen y tymor, mwynhawyd taith gerdded a Cwis Byd Natur gan Mrs Nant Roberts a Huw. Diolchodd Elin Glyn iddynt.

Dymunir llongyfarch Mathew Phillips am ddod yn drydydd am chwarae'r piano dan 12 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor. Ebrill 3ydd cafwyd 10 o'r aelodau i Wersyll Glan-Ilyn am benwythnos. Er nad oedd y gwydd yn ffafriol iawn roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn arw. Mawr ddiolch i Miss Jên Jones am wirfoddoli i fynd gyda'r criw. Yn ôl ei golwg bawn Sul, roedd angen gwyliau'r Pasg iddi ddod ati i hun. Diolch Miss Jones. Gobeithir trefnu cyngerdd ym mis Mai gydag eitemau gan gystadleuwyr Eisteddfod yr Urdd.

21ain OED. Llongyfarchiadau mawr i ti, Rhian Green, ar achlysur dy ben-blwydd yn 21ain yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rebecca Thomas, Bwthyn Cae Howell, a Dyfed Jones o Gaernarfon, ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Janice a Graham, 21 Bryntirion ar

enedigaeth mab bychan, Joe, a brawd bach i Nicola. Pob hapusrwydd ichwi hefo'r bychan. PWYLLGOR NEUADD BENTREF. Tynnwyd Clwb Cant mis Ebrill a'r enillwyr lwcus oedd 1, Tony Elliott; 2, Elen Lewis; 3, Ron Hughes.

Nos Iau, Ebrill 2il, cafwyd noson hynod o lwyddiannus yn y Neuadd. Bu cystadlu brwd gyda safon yr holl gynhyrchion yn uchel iawn. Cafwyd cardiau a lluniau Pasg a nifer fawr o wyau wedi'u paentio a'u haddurno yn gywain. Roedd nifer o'r plant wedi cael hwyl ar addurno hetiau a chynllunio a gwneud gerddi Pasg. Roedd llond bwrdd o deisennau Pasg bendigedig yn amrywio o fod yn nythod, cywion, cwningod, croes ar wyau. Bu'n dasg ofnadwy o anodd i'r beirniaid, Carys ac Arwel Jones, Cae Eboni. Roedd y safon mor uchel roedd yn rhaid cael cydradd gyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth bron. Dymunir diolch i Carys ac Arwel am eu gwaith caled ac am eu geiriau caredig i'r plant. Diolch hefyd iddynt am eu rhodd hael ac am eu parodrwydd bob amser yr awn ar eu gofyn. Mawr yw ein diolch hefyd i Miss Jên Jones, staff, plant a rhieni'r ysgol a gefnogodd y noson gan sicrhau noson gymdeithasol ddifyr a chyfeillgar.

Taith gerdded llwybrau nodedig fydd y gweithgaredd nesaf a hynny ym mis Mehefin, yng ngofal Leslie Larsen. Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

GWELLHAD. Ein cofion annwyl at bawb sy'n sâl ei iechyd yn y pentref. Dymunir adferiad iechyd buan i chwi oll. Da deall fod Siôn Roberts, Tai Croesion yn cryfhau wedi'i ddamwain yn ddiweddar. Rydym oll yn cofio atat Siôn ac yn dymuno'r gorau iti. Anfonir cofion annwyl am wellhad buan hefyd i Mr R. Humphreys, prifathro yr Ysgol Gymuned. Brysiwch wella.

DIOLCH. Dymuna Siôn ddiolch o galon i'w rieni a'i deulu am eu gofal tyner ohonno wedi'i ddamwain. Gwerthfawroga ef a'r teulu y gefnogaeth gref a'r caredigrwydd mawr a ddangoswyd iddynt gan drigolion y pentref hwn a'r fro hon. Derbyniwyd llu o gardiau, llythyrau, galwadau ffôn, ac ymweliadau a fu o gysur a nerth iddynt. Dymuna Siôn ddiolch i bawb am yr holl



Aelodau llwyddiannus y tîm gymnasteg.

GYMNASTEG. Mewn cystadleuaeth gymnasteg yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon ar Ebrill 4ydd bu pump o'r pentref yn hynod lwyddiannus. Yng ngrŵp A, genethod, enillodd Sara Woodcock, Tŷ Gwyn fedal arian. Yng ngrŵp A, bechgyn, enillodd Llŷr Roberts, Tŷ Gwyn y fedal efydd. Yng ngrŵp B,

genethod, enillodd Anest Eifion, Winllan y fedal arian ac yng ngrŵp B, bechgyn, enillodd Luke Lloyd Hughes, Aljen y fedal aur. Cafodd Jenny Hamer, Stablau bedwerydd. Bydd Anest, Luke a Jenny yn cystadlu yng Nghaerdydd ym mis Mai. Felly pob dymuniad da ichwi.

ddymuniadau da ac am ymweliadau a chwmni cyson Wena a'r hogia! Diolchir yn arbennig i fechgyn yr ambiwlans ac i feddygon a staff wardiau Beuno a Chybi, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon.

YSGOL SUL BOSRA. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn dwy Gymanfa yn ddiweddar. Diolchir iddynt am ddysgu eu gwaith mor drwyadl. Bydd rhaid trefnu trip yr Ysgol Sul yn fuan rwan.

GWYL BAN-GELTAIDD. Bu nifer o'r pentref hwn a'r fro hon yn yr Wyl

Geltaidd a gynhaliwyd yn nhref Tralee, Iwerddon, dros benwythnos Ebrill 16-19. Llongyfarchiadau brwd i'r rhai sy'n aelodau o Gôr Meibion y Penrhyn ar gipio'r wobr gyntaf i'r Corau Meibion a tharian am y perfformiad gorau yn yr Wyl. Da iawn chi hogia! Llongyfarchiadau i'r genod sy'n aelodau o Gôr Lleisiau'r Gweunydd hefyd am eu datganiad hyfryd hwythau mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn ôl y tri beirniad.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd — 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio :: Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudoll)

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AVW

YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



Ymweliad â Ffrainc

Fore Sadwrn sych o Fawrth cychwynnodd yr ymweliad hirdisgwyledig â Brest. Wrth i Madame Carfan, Mselle Behro a Mr Siôn Jones geisio cael pawb oddi wrth eu rhieni, roedd Caryl a Bethan eisoes wedi rhoi'r fideo gyntaf o 'Friends' ymlaen! — So much am ddiwylliant Ffrengig!

Cawsom ein blas cyntaf o fywyd Ffrengig wrth ddisgwyl am fynd ar y llong ym Mhlymouth, tra'n gwrandao ar ganeuon hapus Ffrengig (a chlapio) y grŵp o'r bws tu ôl. Erbyn i ni gyrraedd Roscoff roedd pawb yn ôl yn eu lliwiau ysgol . . . gwyrdd! A distaw iawn oedd pawb ar y bws wedyn.

Yn dilyn diwmod gyda'r teulu, roedd pawb yn falch o weld ei gilydd, ac yn cymharu'r bocsys bwyd! Chara Voile oedd ein gweithgaredd cyntaf, sef hwylio tywod, ond er mai ar y tywod yr oeddem, llwyddodd pawb i gael socsan!

Ni ddywedaf lawer am y porthladd pysgod ddydd Mawrth, dim ond fod pawb yn ôl i liwiau'r wisg ysgol!

Pen ein taith ddydd Mercher oedd y creigiau pinc ar yr arfordir gogleddol. Yn dilyn taith o gwmpas saith ynys oedd yn llawn pâliard, hugeiniaid a llawer o adar prin eraill. Cawsom gyfle i wyllo'r 'surf dudes' yn gwneud eu stwff a blasu ychydig o'r crepes lleol.

Arhosom yn Brest ddydd Iau ac ar ôl mymryn o siopa ac ymweliad â'r castell hanesyddol aethom i fentro ar y sglefrau (gweler y llun), a dyma un o'r adegau prin lle roedd Madaem Garfan at ei thraed!

Gwel sêr wnaethom ni oll ddydd Gwener, yn y Planetarium, wrth gwrs. Mae yna gais wedi dod i law i gael seddau cyfforddus tebyg i'r rhai oedd yno ar gyfer yr ystafell athrawon! Yn dilyn ymagis aflwyddiannus i geisio sysylltu â'r ysgol yn y Ganolfan lloeren a thelathrebu, cawsom gyfle i weld y derbynnydd lloeren cyntaf erioed ym Mhlomeur-Baudon.

Dagreul fu y ffarwelio gyda'r Ffrancwyr, ond mwy dagreul fyth roeddem o glywed am berfformiad gwarthu tîm rygbi Cymru yn erbyn . . . ia, Ffrainc!

Ond er gwaethaf y siom fawr yma ni chawsom ein siomi ar y trip gwerth chweil hwn. A, do! fe wellod y 'parole Francais' yn arw hefyd!

Chwarae Pêl-droed yn Nhîm Cymru

Bu Iona Williams o Lanrug yn brysur dros wyliau'r Pasg yn ymarfer am wythnos galed er mwyn chwarae pêl-droed i garfan Cymru yn erbyn yr Alban ac Iwerddon.

Chwaraeodd yn erbyn yr Iwerddon ar bnawn Mercher ar gae Conwy, ond yn anffodus colli o 2 i 1 wnaeth Cymru gyda Iona yn chwarae yn y safle 'right wing back'.

Newidiwyd y tîm ar gyfer y gêm yn erbyn yr Alban fore Sul ar gae Porthmadog. Chwaraeodd Iona yn ei safle arferol y tro hwn — yng nghanol cae. Er i Gymru gael y rhan fwyaf o'r meddiant, daeth yr Alban yn agos iawn i sgorio, ac er mawr ryddhad i Gymru, taro'r trawst a wnaethant a Cymru fu'n fuddugol o 1 gôl i 0.

O DEN YR ATHRAWON

Trist oedd ffarwelio a Mr Siôn Jones sydd wedi'n gadael i fynd yn ddirprwy-brifathro i Ysgol Treborth. Yn ystod ei gyfnod yn Ysgol Brynrefail bu ei gyfraniad yn sylweddol yn yr adran wyddoniaeth, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac hefyd fel swyddog arholiadau'r ysgol. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

Llongyfarchiadau i Dr Carey Cartwright sydd wedi'i benodi'n Swyddog Datblygu GNVQ i fwrdd arholi Edexcel yng Nghymru. Bydd Dr Cartwright yn ein gadael ar ôl y Sulgwyn. Yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol bu'n weithgar iawn yn yr adran wyddoniaeth ac fe lwyddodd i gynllunio cwrs Technoleg Gwybodaeth GNVQ sydd wedi ennill cydnabyddiaeth o ragoriaeth o sawl cyfeiriad. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

Llongyfarchiadau i Mr Selwyn Allsup sydd wedi'i benodi'n Swyddog Arholiadau'r ysgol. Bydd Mr Allsup yn cychwyn ar ei waith ar ôl y Pasg, pan fydd tymor prysur o arholiadau o'n blaen. Dymunwn yn dda iddo gyda'r gwaith.

Penodwyd Mr Dylan H. Jones o Gaerdydd yn athro gwyddoniaeth (Bioleg) i olynu Mr Siôn Jones. Mae Mr Jones yn dysgu ar hyn o bryd yn Ysgol Glantâf a byddwn yn ei groesawu i'n plith ym mis Medi.

NEWYDDION YS



Iwerddon aeth adref fel pencampwyr gan iddynt guro'r Alban o 1 gôl i 0.

Ymweld â Manceinion

Ddydd Mercher, Ebrill 1af, cafodd criw Daearyddiaeth Bl. 12 a 13 yr ysgol gyfle i fynd ar daith i Fanceinion fel rhan o'u cwrs.

Cawsant weld y datblygiadau diweddaraf yn y Maes Awyr (er nae oedd 'Swampy' i'w weld yn unman), cyn mynd drwy Rusholme (hen aral Wyddelig sy'n Asiaidd erbyn hyn) ac ymlaen trwy Moss Side (a oedd yn brofiad a hanner), i ganol y ddinas lle mae olion y bom a ddinistriodd yr ardal yma o'r ddinas yn dal i'w gweld. Yna ymlaen i astudio'r newidiadau sy'n digwydd yn Salford Quays (y Manchester Docks gynt) a'r ganolfan siopa Cheshire Oaks.

Roedd pawb wedi mwynhau y profiad o ymweld â'r ddinas, a gobeithio eu bod wedi dysgu rhywbeth hefyd!

Technoleg Gwybodaeth GNVQ

Yn ddiweddar derbyniwyd y newyddion da fod cynllun cwricwlwm Technoleg Gwybodaeth GNVQ wedi ennill clod uchel gan Gymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru am y datblygiadau yn ystod 1997. Dechreuwyd ar y cynllun ym mis Medi 1996 ac fel rhan o'r cynllun fe sicrhwyd cymhwyster a phrofiad o ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth i bob disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

Datblyghwyd dwy labordy gyfrifiadurol newydd er mwyn sicrhau cyfleusterau o'r safon uchaf ar gyfer y cwrs. Gwelir defnydd helaeth o'r cyfrifiaduron gan y myfyrwyr, sy'n gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir iddynt. Edrychwn ymlaen at weld y myfyrwyr cyntaf i orffen y cwrs yn llwyddo yn yr haf ac yn gadael yr ysgol gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer Addysg Uwch a byd gwaith y dyfodol.

Derbyniwyd tystysgrif yn nodi'r llwyddiant gan Gymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru ac rydym yn llongyfarch yr holl athrawon a'r disgyblion sydd ynghlwm â llwyddiant y cwrs.



Paratoi ar gyfe



Yn ystod wythnos olaf tymor y gwanwyn daeth Ms Mandy Evans o Fanc y National Westminster i siarad efo aelodau o'r chweched dosbarth am fenthyciadau i fyfyrwyr. Hefyd cafwyd cyflwyniad gan Mr Peter Williams (Swyddog Grantiau Cyngor Sir Gwynedd) i egluro'r drefn o geisio am grantiau. Mawr obeithir y bydd y cyflwyniadau o gymorth i'r myfyrwyr wrth ymdrin â materion ariannol bywyd coleg.



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota




Molchi, cribio a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

GOL BRYNREFAIL

Cystadleuaeth Sbarc!



Cystadleuaeth ysgrifennu creadigol yw Sbarc! sy'n agored i bawb sy'n byw yng ngogledd Cymru.

Llwyddodd dau o ddisgyblion yr ysgol i gael canmoliaeth uchel iawn gan y beirniaid Myrddin ap Dafydd a Jenny Sullivan a gwahoddiad i noson wobrwyo yn y Mynydd Gwefru yn Llanberis.

Ysgrifennodd Owain Siôn Williams (Bl. 9) o Fethel, stori a ysbrydolwyd gan Sbectol Inc, cyfrol o farddoniaeth. Datgelwyd ar y noson fod dros 200 wedi cystadlu ac felly fod Owain wedi cyflawni dipyn o gamp wrth ddod i'r brig.

Cyfansoddodd Karen Berbeck (Bl. 11) o Lanrug, gerdd wedi iddi ddarllen y nofel *Killing the Demons*. Roedd y beirniad, Jenny Sullivan, yn canmol ei gwaith yn arw a chafodd Karen, fel Owain, docyn llyfr yn wobwr. Dyma'r ail dro i Karen ddod i'r brig yng nghystadleuaeth Sbarc!

Mae'r ysgol yn ymfhyrfu yn llwyddiant y ddau.



Ffug Gyfveliadau

Yn ystod pythefnos olaf tymor y Pasg fe drefnwyd Ffug Gyfveliadau gyda chyflogwyr lleol i bob disgybl o flwyddyn 11. Bwriad y cyfveliadau oedd i'r disgyblion fynd drwy'r broses o geisio am swydd. Cwblhawyd ffurflen gais ar gyfer maes galwedigaethol o ddewis y disgybl ac yna fe drefnwyd cyfveliadau gyda chyflogwr o'r maes. Derbyniwyd adborth gan ddisgyblion unigol yn dilyn y cyfveliadau ac fe obeithir y bydd hyn o ddefnydd

i'r disgyblion yn y dyfodol pan fyddant yn mynd am gyfveliadau ym myd gwaith. Dymuna'r ysgol ddiolch i'r cyflogwyr lleol fu mor hael gyda'u hamser a'u harbenigrwydd. O'r adborth a dderbyniwyd gan y disgyblion mae'n amlwg bod y fenter a'r trefniadau wedi bod yn llwyddiannus, a bod y disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfle a'r profiad.



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu

Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol natruiol, di-lol

CREDWCH! HOLWCH!
ffonlwch (01286) 830609
— TENEUWCH —
SLIM CHWIM MEWN DIM!

Taith Awstralia 1993

Yn ystod cyfnod Gŵyl Ddewi 1993 cefais y fraint o dderbyn gwahoddiad i deithio i Melbourne, Awstralia i arwain Cymanfa Ganu flynyddol. Tra roeddwn yno daeth galwad ffôn gan gyfaill i mi, Don Gibson, Cymro Cymraeg yn wreiddiol o Landdulas oedd wedi byw yn Melbourne am dros ugain mlynedd. Cynnig roedd Don i fynd a mi i ymweld â'r man lle cychwynnodd y 'gold-rush' yn Awstralia, sef tref Balarat.

Derbyniais innau'n eiddgar a dyna ddechrau taith o rhyw ddwyawr yn y car gyda Don a'i wraig a minnau i gyfeiriad Balarat. Mae Balarat wedi codi amgueddfa bentref ar yr un llinellau a Sain Ffagan yng Nghymru sy'n dangos yn glir sut roedd bywyd yn ystod y 'gold-rush' yn Awstralia.

Ar ôl cyrraedd, strôl o gwmpas y dref cyn ymweld â'r amgueddfa ac yna ar gornel stryd gwelais gof-golofn anferth yn dynodi faint o aur neu greigrisial (quartz) roedd y gwahanol fwyngloddiau yn ardal Balarat wedi'i godi o'r ddaear mewn can mlynedd (1861-1961). Ar ben y tabl roedd mwynglawdd 'Star of the East', ond ystyriwch fy syndod wrth weld hanner ffordd i lawr y gynghrair dau fwynglawdd — Llanberis No. 1 a Llanberis No. 2.

Tybed oes gan rhai o'n darllenwyr unrhyw wybodaeth am bobl o'r ardal hon aeth i Balarat i suddo mwynglawdd aur?

GARETH HUGHES-JONES

(Pennaeth Cerddoriaeth)

Paid â Bod Ofn



Yn dilyn llwyddiant tîm yr ysgol yng nghwis pop Radio Cymru — 'Ram Jam' — cafodd y criw gynnig cymryd rhan mewn cwis tebyg. Ar ôl llwyddo i drechu timau'r gogledd, sef Tryfan, Syr Hugh Owen a Dyffryn Ogwen gartref, gwahoddwyd y disgyblion i lawr i Ysgol Penweddig, Aberystwyth i recordio rownd derfynol 'Paid â Bod Ofn'. Cwis tebyg i 'Ram Jam' ydoedd, gyda'r cyn-ddisgybl Dafydd Du wrth y llyw. Ond y tro hwn, timau o dri a gynrychiolai'r ysgolion, gyda chefnogwyr brwd yn eu hannog ymlaen. Aelodau tîm yr ysgol

oedd Meilyr Emrys, Bethan Williams a Jennie Lyn Morris. Cafwyd cystadlu brwdfrydig a chyffrous, gyda'r ddwy ysgol yn dangos gwybodaeth eang am gerddoriaeth bop, ac ar ôl saith rownd llawn tensiwn Ysgol Brynrefail a orfu. Bydd yr ysgol yn awr yn derbyn tlws i goffâu'r llwyddiant ynghyd a siec sylweddol. Roedd ymddygiad pob disgybl yn ganmoladwy ac roess Daf du a'i griw yn hynod ddiolchgar iddynt am eu hymroddiad a'u brwdfrydedd. Diwrnod i'w gofio'n wir! Beth fydd y bennod nesaf, tybed?

AM OFFER TŶ A GARDD . . .

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PROFEDIGAETH. Nos Sul, Mawrth 22ain, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Bobbie Roberts, Penllyn yn 73 mlwydd oed. Yr oedd yn gymeriad poblogaidd yn y pentref ac yn mwynhau cwmniath i sgwrsio am amrywiol atgofion a gwahanol ddiddordebau. Bu'n trigo ym Mrynrefail am dros drigain mlynedd a'i briod ac yntau ar fin dathlu eu priodas aur. Bu'r angladd cyhoeddus ar Fawrth 27ain yn Eglwys Llanddeiniolen ac yn dilyn ym mynwent yr Eglwys. Cydymdeimlir yn ddwys â'i weddw, Mrs Jennie Roberts, ei fab Alwyn a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

NOFIO NODDEDIG. Gwerthfawrogi ymdrech Dorothy Wager, Y Llythyrdy, yn ymgymryd â'r sialens o nofio nodedig ym Mhwl Nofio Gwesty Seiont Manor ar Ebrill 1af. Bydd yr arian godwyd, sy'n swm o dros £400, yn mynd i bwrcasu bwrdd picnic o wneuthuriad metel i Gae Chwarae'r pentref ac a gyflenwir gan y Brodyr Jones o Fethesda. Mae Mrs Wager yn nofio'n ddwyddiol fel rhan o therapi i'r arthrits mae'n dioddef ohono ac yn disgwyl cael triniaeth lawfeddygol maes o law. Mae'n gobeithio hefyd y bydd ei hymdrech yn ysgogi eraill i sylweddoli pa mor llesol yw nofio i liniaru peth ar y boen a ddioddefir o achos arthrits.

YMWELIAD. Ddydd Sul, Ebrill 5ed oedd y diwrnod y cychwynnodd Islwyn Jones, 3 Trem Eilian ar ei daith am Seland Newydd. Dyma'r tro cyntaf iddo ymweld a'i deulu yn Auckland ers pan ymfudodd ei ddiweddar frawd, Eirwyn a'r teulu yno yn 1960. Achlysur arbennig oedd yn ei ddisgwyl yno, sef priodas ei nai, Graham, ar Sul y Pasg. Deallwn fod ei chwaer, Gwyneth a'i phriod, Stanley o Gaerdydd, wedi penderfynu ymuno ag ef ar y daith ar ôl clywed am y trefniadau cyfrinachol wnaed gan Rhian ar ei ran a hynny ddeng niwrnod cyn hedfan! Buont yn ffodus i gael teithio ar yr un awyren ac wedi cyrraedd yno yn ddiogel, mawr fu'r dathlu. Edrychwn ninnau ymlaen am ei groesawu gartref ar Fai 5ed.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD. Nos lau, Ebrill 2il, daeth cynulliad cryf i gyfarfod agoriadol y Gymdeithas a drefnir dan nawdd y chwiorydd. Croesawyd pawb yn gynnes gan gadeirydd y noson, Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc. Roedd y defosiwn, dan ofal Mrs Lowri P. Roberts Williams, Godre'r Coed, yn seiliedig ar destun y gŵr gwadd am y noson, y Parchg Iorwerth Jones Owen, sef 'Dylanwadau'. Roedd y

ddarlith yn olrhain dylanwad pedwar gŵr amlwg ym mywyd yr awdur a'r cyfan yn cael ei gyflwyno mewn dull amrywiol a diddorol. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd a chafwyd gair pellach o werthfawrogiad gan Mr R. Wyn Evans. Bydd y cyfarfod nesaf nos lau, Mai 14eg, pryd y disgwylir Mr Barry Davies, Creigle, Brynrefail i roi sgwrs. Casglwyd y swm o £73 tuag at amcanion arbennig y Genhadaeth Gartref a Thramor a'i drosglwyddo drwy Drysorydd yr Henaduriaeth i Sasiwn Genhadol Chwiorydd y Gogledd a gynhelir eleni ar Fai 6ed yn Rhosllannerchrugog.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Glenn a Glenda Lamb, Llys Arfon ar enedigaeth eu mab bychan. Croeso mawr i William Glenn.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun, Ebrill 20fed, daeth yr aelodau ynghyd i'r Festri a chroesawyd pawb gan y llywydd, Mrs Pat Jones. Rhoddwyd sylw i faterion a llythyrau misol Mawrth ac Ebrill a threuliwyd noson gymdeithasol hwyliog yng nghwmni'r aelodau. Paratowyd lluniaeth gan Mrs Verna Jones a Mrs Helen Morris a diolchwyd iddynt gan Mrs Jennie Hughes. Hi hefyd gyflwynodd anrheg y mis ac fe'i henillwyd gan Mrs Pat Jones. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mai 18fed, pryd y trafodir yr argymhellion ar gyfer Cyfarfod Blynnyddol Sefydliad y Merched a gynhelir yn Brighton.

COFION. Da yw deall fod Mr Hugh Williams, 4 Tai Orwig wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd wedi bod yno dan ymchwiliad yn ddiweddar. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Dilys Jones, Cytir yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Trefn yr oedfaon am fis Mai:

- 3: CYMANFA GANU DOSBARTH PADARN a gynhelir yng nghapel RHIWLAS am 2 a 6 o'r gloch.
- 10: Mr Meirion Evans, Lerpwl (5.30)
- 17: Mr Vernon Owen, Llandwrog (10.00)
- 24: Mr J. O. Roberts, Bethesda (5.30)
- 31: Parchg John Owen, Bethesda (5.30)

PLYGU'R ECO. Cofiwch mai tro Brynrefail fydd plygu rhifyn Mehefin o'r Eco. Buasem yn falch o weld wynebaw newydd yn ymuno â'r tîm rhagorol sy'n dod yn flynyddol ac yn cael llawer o hwyl wrth wneud y gwaith. Cofiwch felly am nos lau, Mai 28ain yn y Festri.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CYDYMDEIMLO. Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont bu farw Mrs Eluned Jones, Llynfod. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Jones a Glenda yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl.

Cydymdeimlwn â Mrs Kathy Tame, Stad Glyn Afon yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Liz Daniels, 8 Stad Tŷ Hen yn ei phrofedigaeth o golli ei mham. Dymuna Liz a'r teulu ddiolch o galon i'w ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwyd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam annwyl.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth tymor y Gymdeithas i ben ar 16 Mawrth pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Eira Lewis Roberts ar y testun, 'Y Llyfr a'r Llyn'. Eglurodd sut y bydd yn mynd ati i ysgrifennu sgript ar gyfer rhaglenni fel 'Pobol y Cwm' a 'Minafon'. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Gweneirys Jones a diolchwyd gan y Parchg Myfanwy Davies. Cafwyd lluniaeth ysgafn i ddiweddu'r cyfarfod.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso i Mrs Emsul Jones, Stad Bro Waun a Rhian, 7 Stad Tŷ Hen, gartref o'r ysbyty. Gobeithiwn yn fawr eich bod yn gwella.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mr Marc Jones, 7 Ael-y-bryn sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd; ac at Mrs Williams, Stad Croesywaun sydd yn Ysbyty Eryri.

DYMUNO'N DDA. Dymunwn yn dda i Mr a Mrs Meirion Jones sydd wedi symud o'r Waun i fyw yng Nghaernarfon a chroesawn Gwen Pritchard, Tŷ Capel gynt, a'i theulu yn ôl yma i fyw.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Denise a Terrence, 4 Bryn Golau ar enedigaeth merch fach, Ria Elisha, chwaer fach i Lesley, Tamsin a Kelly, ac wyres fach i Gwilym ac Angela Williams, 7 Bryn Golau.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Geraint Rees, Pant Afon ar gyrraedd ei 21 oed.

DIOLCH. Dymuna Bryn a Linda Griffiths, Perthi ddiolch am bob caredigrwyd a dderbyniodd eu

merch fach Anest ar ôl iddi dorri ei braich.

DIOLCH. Dymuna Pearl ac Eurwyn, Parc ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, yn gardiau (sy'n rhy niferus i'w hateb yn unigol), galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam a mam yng nghyfraith.

DYMUNO'N DDA. Gyda thymor yr arholiadau unwaith eto wedi ein cyrraedd dymunwn yn dda i bob un fydd yn sefyll arholiad ysgol a choleg.

MENTER NEWYDD. Dymunwn yn dda i Anne Jones, 4 Ael-y-bryn ar ei menter yn agor siop yng Nghaernarfon — hen siop 'Sparkles'.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwyneth Ellis, Ty'n Llidiart ar ei llwyddiant gyda'r fenter caffi'r rhyngwyd — Dimensiwn Pedwar — yng Nghaernarfon.

DAMWAIN. Anfonwn ein cofion at Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau sydd wedi cael damwain yn ei chartref. Gobeithio y byddwch yn gwella'n fuan.

ENILLWYR y Clwb 300 am fis Mawrth — £40: Jeanette Burden, 4 Dôl Erddi; £25: F. a Ar. Troughton, Pant Gwyn; £10: V. D. Davies, Bryn Gwyrfa.

DRAENOG



Clywais sôn am bedair o ferched Deiniolen wedi mynd i Blackpool am wyliau ac yn mwynhau gwyliau'r gwanwyn. Gwelsant ddynas ddiarth efo camera a gofyn iddi hi dynnu llun ohonyn nhw gan daro bargaen trwy dalu ymlaen llaw am y llun ac am ei bostio i Ddeiniolen. **OND . . . ddaeth y llun byth . . . ond fe gawsant air gan y ddynas ddiarth yn deud 'Sori genod ond doedd gen i ddim ffilm yn y camera — ond diolch i chi am y pres yr un fath!' Caught out on camera!**

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW

KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos Faenol Ffôn: 871174

CYNGOR EGLWYSIG. Cynhaliwyd oedfa Gymundeb yng nghapel Libanus, nos Iau Cablyd, Ebrill 9, dan arweiniad y Parchg Olaf Davies.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod arferol olaf y tymor nos Lun, Mawrth 23 gyda Mr PWY A WYR, Llangefni yn dangos sleidiau ac adrodd hanes traddodiad addurno'r ffynhonnau yn Swydd Derby. Daw tymor y Gymdeithas i ben nos Wener, Mai 1, gyda'r swper blynyddol yng ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy.

CEFNYWAUN AC EBENESER. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa Annibynwyr y cylch yn Ebeneser ddydd Sul, Ebrill 19. ENILLWYR CLWB 200 Y SEINDORF am fis Mawrth — £25: A. Griffiths, Dinorwig; £15: Ian Williams, 39 Rhydfadog; £10: Peter Smith, Deiniolen.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng nghapel Ebeneser, Deiniolen. Am 2 o'r gloch cafwyd eitemau clodwiw gan aelodau Ysgolion Sul Ebeneser, Capel Coch, a Bosra Penisarwaun. Cymerwyd y rhan ddechreuol gan ddisgyblion Ysgol Gynradd Cwm-y-glo a diolchir iddynt am eu gwaith graenus.

Arweinydd y gân oedd Mrs Mair Huws, Llanrug a mawr y diolch iddi am ei dull cartrefol ac annwyl gyda'r gynulleidfa. Diolchir hefyd i Mrs Marina Jones, Penisarwaun am gyfeilio.

Fel gwerthfawrogiad o'i waith diflino i achos y Gymanfa dros yr holl flynyddoedd cyflwynwyd copi o *Llawlyfr y Beibl* i Mr Donald Jones gan Ffion, Sioned Adwen a Manon ar ran yr Ysgolion Sul a chapeli'r


dalgylch. Diolchir hefyd i Miss Jean Parc Jones am lywyddu ac am ei hanerchiad i'r plant.

Am chwech yr hwyr cafwyd Cymanfa Ganu gyda detholiad o emynau o'r *Caniedydd*. Diolchir i Mr Robert Lloyd, Llanberis am arwain ac i Mr John B. Jones, Deiniolen am gyfeilio. Llywyddwyd gan y Parchg

John Pritchard. Cafwyd eitemau gan Gôr Clychau'r Grug a diolchir iddynt am eu datganiadau ac am eu cefnogaeth i'r Gymanfa.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Lewis ac Eddie, 18 Rhydfadog ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad caredig, sef Mr Goronwy Lewis ar 3 Mawrth 1998. Diolch yn arbennig i staff Wardiau Glyder, Hebog a Beuno yn Ysbyty Gwynedd ac i staff Ysbyty Eryri. Diolch hefyd i'r Dr Robin Parri.

AUR LLANBERIS



Mr Gareth Hughes-Jones yn Balarat, Awstralia — gweler y stori ar y dudalen ganol.

Siop Newydd y Gilfach Ddu

Mae siop greffttau newydd wedi agor yn yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Mae'r adeilad newydd yn rhan o'r datblygiad gwerth £2.2 miliwn yn y Gilfach Ddu, ac eisoes mae'r siop yn llwyddiant mawr. Mae pob math o nwyddau ar werth yno, yn ôl Mark Humphries, Rheolwr Masnachol Amgueddfeydd ac Oriel Cymru: powlliau a phlatiau pren; powlliau, platiau a chanhwyllbrennau llechen; a hyd yn oed blaciau llech ag arnynt flodau wedi'u sychu. Mae yno hefyd ddeunydd a wnaed gan grefftwyr yr Amgueddfa fel bracedi dal blodau a blodau addurnedig haearn.

Mae'r deunydd yn adlewyrchu'r hen ddiwydiant llechi yn ogystal â'r diwylliant Cymreig yn gyffredinol. Dros fisoedd yr haf bydd y siop yn agored o 9.30 hyd 5.30 o'r gloch, ac yna o 10 hyd 4 o'r gloch drwy'r gaeaf.

Mae'r Amgueddfa wrthi'n cynllunio ar gyfer y datblygiadau nesaf sy'n cynnwys caffî; man

chwarae a darganfod i blant; sioe weledol gyffrous; gwella'r fynediad i'r Olwyn Ddŵr; adnewyddu inclên Vivian; ac ailgodi rhes tai yn yr Amgueddfa.



Mrs Rosina Worth o Ddeiniolen, sy'n gweithio yn y siop, yn dangos rhai o'r nwyddau sydd ar werth.

DRAENOG



Glywsoch chi am y ffarmwr aeth i helpu oen oedd wedi'i ddal mewn drain ger Ysgol Dolbadarn? Wedi cryn drafferth llwyddodd i gael yr oen yn rhydd ... ond ... wrth ryddhau'r oen

aeth y creadur ei hun yn sownd yn y drain. Yno y buo fo am hanner awr cyn rai o blant yr ysgol glywed ei gri am help o'r ochr draw i'r wal. Roedd o'n chwysu chwarta wrth drio dod yn rhydd. Mae'r Draenog hefyd yn chwysu chwarta wrth drio cadw trac ar helyntion y gwron ... cofio stori'r frechdan banana'r mis diwetha? ... a stori'r wyau y tro cyn? ... a stori'r ffarmwr yn sych o betrol? Debyg y daw rhagor o anturiaethau clos cyn bo hir.



HEALING & PEACE GROUP
YN CYNNAL CWRs

I DDYSGU SUT I DDATBLUGU
Y DDAWN O IACHAU
TRWY'R DWYLO (HANDS ON HEALING)

Dydd Sadwrn A Sul 9ed./10ed. o FAI - 10am.- 6pm.
Yn NEUADD GOFFA PENYGROES
Tâl- £10. (Di-waith £6.)

Am Fwy O Wybodaeth
Tel. (01286)880135 | Tel. (01766) 513573

DAN REOLAETH NEWYDD

LONDON GARAGE

FIAT

CWM Y GLO

ARBENIGWYR TRIN CEIR FIAT

Perchennog: MEL ROBERTS



GORSAF PRAWF
MOT

POB MÊC

CEIR a FANIAU BACH
GWASANAETH ac ATGYWEIRIO
CROESEWIR CWSMERIAID HEN A NEWYDD

GALWCH MEL AR (01286) 870234

neu ffacs: (01286) 870066

AR AGOR:

Llun - Gwener: 8.30 a.m. — 5.00 p.m.
Sadwrn: 8.30 a.m. — 12.00



YR WYL gan Y Gwalch

Roedd Taid yn byw o fewn tafliad carreg i'w fab a'i ferch yng nghyfraith a'i wyl bychan, Dylan a oedd yn wyth oed, ac yr oedd hynny'n drefniant delfrydol o'i safbwynt o pebai rhyw argyfwng, ond hyd hynny yr oedd wedi gallu tynnu drwyddi yn ddi-fai, serch ei fod wedi'i adael yn weddw.

Roedd yn mynd a dod yn ei gar fel y mynnai ac yn gallu cael ei holl anghenion heb fynd ar ofyn, ac yr oedd yn berson cymdeithasol, erioed wedi bod, a byth yn brin o gwmpeini, ac yn aelod o'r mudiad yma a'r clwb arall ac yn ddarllenwr eang ac yn dilyn hynt gyfredol y byd efo'r cyfryngau. O ganlyniad yr oedd gando gyflenwad o wybodaeth gyffredinol yn enwedig am ei blwyf ei hun.

Serch hynny i gyd, roedd Taid braidd yn siomedig yn ei berthynas â'i wyl. Roedd o wedi dychmygu y buasai gan hwnnw fwy o chwilyddedd yn y pethau rheiny y buasai'r hen wr yn gallu dweud cymaint wrtho amdanynt. Roedd wedi cymryd ato cymaint mewn hynny o beth nes methu peidio sôn wrth ei gyfoedyn, Stanley, pan oeddent yn eistedd ar y fainc wrth y groeslon yn gwyllo'r byd gorffwyll yn rhuthro heibio i Dduw a wyddai pa amcan.

'Ei weld o'n bechod ydw i, Stan, fod yr holl draddodiadau 'ma'n mynd i ddifancoll. Synnu yr ydw i na fasa rhywun yn yr ysgolion yn canfod hynny bellach.'

'Oes fel'na ydi hi,' meddai hwnnw, nad oedd ganddo fawr o ddiddordeb ei hun p'r un bynnag.

'Wel, ia, ella, ond dyna iti yr hen giall bach Dylan acw; dim ond ffwtbol sydd ari fennydd o a'r compiwitar 'na, a'r swn byddarol 'na mae o'n ei wrando arno fo ddydd a nos. Mi fydda i'n deud yn amal, taswn i rywfaint haws, fy mod i'n gobethio y daw o'r ysgol 'na yn medru darllan a sgwennu beth bynnag. Ac mae o'n gneud y petha mwya annisgwyl ar adeg.'

'Wel, felly roeddat titha, mae'n siŵr, yn ei oed o, ond mae'n rhaid i ti edrach arni hi fel hyn. Ella fod beth bynnag sydd yn cael ei wneud yn yr ysgolion 'ma heddiw yn dda, ond dydio'n ddim yr hyn wyt ti na finna yn ei 'nabod.'

A fedrai Taid fynd fawr y tu draw i hynny.

Ond, daeth chwyldroad sydyn yn ei fywyd, fel sy'n dod i'r rhan fwyaf

rhywdro. Daeth Dylan adref rhyw ddiwrnod yn llawn o'i wers. Roedd Mr Davies wedi bod yn sôn wrthynt am y Celtiaid a'r hen gaer Oes yr Haearn dros y drum lle roeddent wedi bod yn trigo tua dwy fil o flynyddoedd ynghynt, ac ar ben hynny roedd yr athro wedi addo mynd â'r dosbarth yno i'w gweld.

'Wel, dyna chdi,' meddai ei fam. 'Taid fedar ddeud wrthat ti am y fan honno.' Cafodd drafferth i ddarbwylllo'r llanc rhag mynd i dŷ Taid y funod honno, ond mynd fynnod o cyn nos, ac yr oedd yr hen wr wedi cael syndod pleserus a'i ddiddordeb wedi'i ennyn ar unwaith.

Dywedodd wrth Dylan i gychwyn fel yr oeddent pan yn blant yn mynd yno ar ôl yr ysgol i chwarae Rhufeiniaid a Brythoniaid yn y ddwy ffos foel yr adeg honno; hynny yn caniatáu golygfa ddi-hafal — Môn a Manaw a holl gadwyn Eryri hyd at Gaer Arianrhod ar Fôr Matholwch, ac ar nosweithiau braf, arlliw o'r Iwerddon. Roedd yr hen Geltiaid yn gwybod am y mannau gorau i adeiladu ceiri i ochelyd ymosodiadau hyd yn oed gan eu pobl eu hunain, achos yr oedd y llwythau yn ymladd â'u gilydd; byth yn gytûn, dyna un rheswm am eu tranc, ac yn dragwyddol ymgegru, 'Fel mae nhw o hyd,' meddai Taid gyda rhith o wên.

Wedynt, aeth i'w swigen aer a dechrau rhamantu braidd. Fel y byddai'r Celtiaid yn gwneud tannau mawr ar wyl Beltane ym mis Mai i groesawu'r tymor hafaid, ac yn aberthu ceffylau i Epona a phobl weithiau, ac aeth mor bell â dweud y byddai milwr tal gyda'i waewffon a'i darian i'w weld o hyd yn cerdded ar ymyl y ffos allanol ar noswaith Beltane.

Roedd yr hogyn erbyn hyn wedi'i gyfareddu ac ar dân awydd mynd i weld y gaer ac achub y blaen ar y dosbarth, a doedd fawr o angen cymell ar Taid i fynd i'w ganlyn, ond yr oedd yna amodau. Roeth Jethro, cyfaill Dylan, i gael dod efo nhw.

Manteisiwyd ar brynawn braf yn niwedd Ebrill i fynd i weld y gaer, lle nad oedd Taid wedi bod ers blynyddoedd. Er mwyn gwerthfawrogi'r olygfa a'i rhoi ar gof aethant â gwydrau-chwydd a chamera i'w canlyn ac yr oedd mam Dylan wedi gwneud picnic iddynt i'w gludo.

Gadawsant y car yng ngwaelod y lôn bach gul a cherdded y gweddill

a bu'n rhaid iddynt afl-ledu dros weiren bigog i gael at ymylon y lle; ymdrech a fu'n dipyn o dreth ar Taid. Ond nid hynny oedd yr unig rwystr. I'w mawr siomiant yr oedd y gaer ei hun a'i ffosydd yn un dagfa o fieri ac eithin, a rhag rhywgo eu dillad a'u dwylo gorfu iddynt ddod oddi yno yn y diwedd heb weld dim o'r disgwylidig ryfeddodau, a'r mwyafrif siomedig o'r tri oedd Taid. Byrdwn ei gân ar ôl dychwelyd oedd: 'Mae'r lle wedi newid yn ofnadwy i'r hyn yr oeddwn i'n ei gofio fo. Fedrwyd chi weld dim gan y tyfiant gwyllt. Mi ddyla pobl yr Henebion, neu pwy bynnag sydd â chyfrifoldeb am le fel'na ei glirio fo. Dydi o'n golygu dim fel y mae o, mwy na rhyw fryncyn arall yn yr ardal 'ma.'

Mynegodd ei fab, fodd bynnag, agwedd arall, 'Tasa'r lle yn cael ei glirio, beth ydach chi'n feddwl fasa'n digwydd wedyn?'

Doedd gan ei wrandawyr fawr o syniad.

'Mi fasa'r tacla'r detectors 'na yno yn un heidia yn chwilio am drysora ac arian daear. Mi fasan yn codi'r tir i gyd i fyny.'

Roedd yn rhaid i Taid gyfaddef yn gyndyn fod yna rhywbeth yn hynny, ond, wrth gwrs, doedd yr hogiau ddim yn sylweddoli'r posibilrwydd.

Ond yn prynhawn gyda hynny, ddaeth Dylan ddim adre o'r ysgol ar ei amser arferol, a phan ddechreuodd hi hwyrhau cynyddodd pryder ei rieni. Gwnaed galwadau i dŷ ei gyfaill i ganfod fod hwnnw yn eisiau hefyd. Aed i dai plant eraill a holwyd rhai athrawon, ond fu neb ddim haws a doedd pryder y mamau yn lleihau dim o gofio fod rhyw geiliogiar yr wythnos cynt wedi ceisio hudo plentyn i'w gerbyd yn y pentref. Pan ddaeth hi'n nos aeth y teuluoedd ar ofyn yr heddlu.

Roedd Tair, wrth gwrs, mor bryderus â neb a chrwydrai yn ôl a blaen rhwng y tŷ a'r ardd. Ar un o'r siwrneiau hynny sylwedd fod yna lewyrch anghyffredin yn yr awyr. Tynnodd sylw ei fab at y golau, a chofiodd ar drawiad mai noswaith Beltane oedd hi.

Heb gyfnwidd fawr o eiriau neidiodd y ddau i'r car, a phan ddaethant i ben y drum gwelsant darddiad y llewyrch. Roedd yr hen gaer yn goelcerth wen o ben i ben.

Aethant ymlaen hyd at waelod y lôn bach ac yno bu'n rhaid iddynt adael y car gan fod y lle yn dagfa o gerbydau'r dynion tân a'u hoffer. Ond gyda hynny daeth i'w cyfarfod blismon yn tywys dau hogyn bach. Roedd y rhieni yn ddu fel mawnen

ac yn edrych braidd yn euog. Yr oedd rhyddhad y tad a'r taid wedi boddi eu hawydd i geryddu.

Pan aed a'r ddau blentyn i'w cartrefi, cyfaddasant mai nhw oedd wedi tanio'r gaer.

'I be yn eno'r tad?' gofynnodd mam Dylan. 'Trio bod yn Geltiaid bach oeddach chi am y noson?'

'Na, nid hynny,' atebodd y llanc. 'Dwad wrtha i i be ynta?'

'Roeddant ni isio clirio'r lle i Taid gael ei olygfa'n ôl, ac yr oeddant ninnau isio ei gweld hefyd.'

DRAENOG



Peth annifyr ydi methu clywed swn y gloch drws ynte? Fuoch chi erioed yn brysur yn yr ardd gefn a phobl ddiarth yn galw a chitha ddim yn eu clywed? Hen brofiad cas. Wel, mi gafodd gŵr o Lanrug afael ar gloch newydd bert y dydd o'r blaen. Efo'r gloch roedd teclyn hwylus symudol a larwm yn canu pan bwysid y gloch. Roedd angen profi'r larwm i wele ei fod o'n gweithio'n iawn. Me ganddo fo wraig oedd yn barod i'w helpu efo'r gwaith a bu hi'n canu'r gloch tra bod yntau'n cario'r larwm nôl a blaen yn y tŷ a'r ardd drwy'r bore. Ond . . . wydden nhw ddim bod yr un math o declyn yn union gan y gŵr drws nesa a bob tro roeddant nhw'n profi'r larwm roedd cloch drws nesa'n canu . . . a'r creadur hwnnw'n methu'n glir â deall pam nad oedd neb yno pan agorai'r drws.


MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD
 **BANGOR**
(01248)
354646

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

- ★ Porches
- ★ Byrddau Ffasia
- ★ Cladio
- ★ Conserfateris

EMYR JONES
PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon
673513

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

CAPEL JERUSALEM. Yng nghyfarfod cyntaf y tymor o'r Gyfeillach ar 7 Ebrill, o dan lywyddiaeth Mr Bert Thomas, cafwyd sgwrs ddiddorol iawn am deulu'r Wybrnant Bach, ac eraill gan mr John Hugh Hughes, Llanberis. Cafwyd lluniaeth ysgafn i ddilyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, 5 Mai, gyda'r Parchg Hugh Gwynfa Roberts yn ŵr gwadd. Croeso cynnes i bawb — dowch i fwynhau pnawn difyr.

UNDEB Y MAMAU. Cynhaliwyd y pwyllgor misol yn y Rheithordy bawn dydd Mawrth, Ebrill 7fed. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs Nan Owen a Mrs Audrey Evans yn darllen rhan o'r Ysgrhythur.

Y gŵr gwadd oedd Mr Rol Williams, Waunfawr a chafwyd amser difyr iawn yn ei gwmni pan roddodd sgwrs am y teuluoedd oedd yn byw flynyddoedd yn ôl yng Nghwm Brwynog ac yn wir roedd ei wybodaeth amdanynt yn anhygoel. Mwynhawyd y panwn yn fawr iawn. Diolch, Rol, am atgofion melys. Y chwiorydd oedd yn ymorol am y bandedd oedd Mrs Nellie Morris a Mrs Kathleen Williams.

Anfonwyd ein cydymdeimlad dwysaf i Mr a Mrs Ted Morris, 16 Maes Padarn yn eu colled o farwolaeth eu merch yng nghyfraith, Pam, yn frawychus o sydyn ym Methesda ac, wrth gwrs, gyda Gerald, Gareth a Bethan, gŵr a phlant Pam.

Cafwyd adroddiad gan Mrs Nan Owen o'r pwyllgor a gynhaliwyd yn Feed My Lambs, Caernarfon ddiwedd mis Mawrth ac yna fe wnaed trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Deoniaethol sydd i'w gynnal yn Eglwys y Santes Fair, Bangor, nos Iau, 18 Mehefin.

Diolchwyd i Mr Rol Williams a'r gwestwagedd gan Mrs Betty Humphreys ac fe eiliwyd y diolch gan Mrs Hilda Wyn Williams. Enillydd y raffl oedd Mrs Kathleen Williams. Diweddwyd trwy adrodd y Gras.

PLAS PENGWAITH. Trefnwyd trip diwrnod, ddydd Mercher, 1 Ebrill, i Blackpool i'r preswylwyr a ffrindiau y cartref. Aethom i westy Tony ac Aloma a chafwyd croeso cynnes ac wedi pryd o fwyd blasus fe ganodd Tony ac Aloma rhai o'u caneuon i ni. Trwy garedigrwyd Mr Gwilym Rees

Parry y cafwyd y bws am y diwrnod a diolchwn yn fawr iddo. Diolch hefyd i Geraint a Haf am y gwasanaeth ar y bws ac i swyddogion a staff y cartref am ei wneud yn ddiwrnod pleserus iawn i bawb.

Mae Mrs Nancy Jones wedi ein gadael i fyw yng nghartref preswyl Llys Eiddion, Llanrug, a dymunwn yn dda iddi gan obeithio y bydd yn hapus yn ei chartref newydd.

Estynnwn groes i Mrs C. Hughes — chwaer Mrs E. Williams — sydd wedi symud atom o Fethel. Croesawn hefyd Mr G. H. Roberts atom o Fangor.

Dymunwn wellhad buan i Mrs M. Williams, Mrs M. Pritchard ac hefyd i Vivienne Thomas un o staff y cartref.

Ar ddydd Llun y Pasg cafwyd gwasanaeth yn y lolf a'r trigolion gyda Ms Haf Morris yn rhoi o'i hamser i gyflwyno'r gwasanaeth gyda rhai o'r preswylwyr yn cymryd rhan. Diolchwyd i Haf ar ran y preswylwyr gan Miss M. Williams ac ar ran y cartref gan Mrs M. Mathews. Ar ddiwedd y cyfarfod cafodd pawb wy Pasg a bwffe i de — a glasiad bach o rywbeth reit dda. Mwynhaodd pawb y diwrnod yn fawr iawn.

CRONFA YMCHWIL EPILEPSI. Mae Anne Parry-Jones yn ddiolchgar iawn i bawb am gefnogi a helpu yng Ngwesty Padarn Lake ac yn y siop. Enillwyr y rafflau oedd a ganlyn — dol: Mrs Mary Thomas, Llanberis; cinio i ddau: Neil Rowlands, Garej Cwm-y-glo; gwin a siocledi: Rene Morgan, Caernarfon; tedi: Donna Kitts, Coleg Menai; tyweli: Oriel Cwm-y-glo. Casglwyd £400 tuag at Gronfa Ymchwil Epilepsi.

DIOLCH. Dymuna Evelyn Jones, 7 Rhes Lôn Las ddiolch i'w theulu, cymdogion a staff Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd ac hefyd Dr Oddy, Llanberis. Diolch yn fawr.

ENILLWYR CLWB FFRINDIAU YSGOL DOLBADARN mis Ebrill — £35: Mrs A. Elsby, 1 Rhesdai Glanrafon, Nant Peris (219); £25: Mrs E. Roberts, 15 Maes Padarn (151); £15: Mrs Cumberton, Snowdon House, Nant Peris (215); £10: Mrs V. Jones, Bryn Gelli (85); £5: Mrs A. Parry, Rhiwerfa (2).

CÔR MEBION DYFFRYN PERIS. Bu'r



Côr yn cynnal noson lawen ym Mlaenau Ffestiniog nos Wener, 27 Mawrth, a chawsom groeso cynnes iawn ganddynt ac elw'r noson yn mynd tuag at Age Concern. Cyflwynwyd y noson gan Robin Jones ac fe arweiniwyd y Côr a'r noson gan Arwel Jones.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Dic (Is-lyn gynt) a fu'n ffyddlon iawn i ymarferiadau'r Côr ac hefyd bu'n dod gyda ni i wahanol gyngherddau. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w deulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar — diolch am gael ei adnabod.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor presennol yn festri Capel Coch nos Fawrth, Ebrill 7, yng nghwmni'r Parchg W. R. Williams, Y Felinheli. Cafwyd sgwrs am 'gas bethau' y darlithydd.

LLONGYFARCHIADAU i Erica Morris Jones, Y Post, ar ei llwyddiant yn Eisteddfod y Groeslon yn ddiweddar. Enillodd Erica'r wobwr gyntaf mewn dwy gystadleuaeth — y llefaru a'r siarad cyhoeddus. Yn ogystal ag eisteddfota mae Erica'n brysur iawn fel aelod o Ysgol Glanaethwy a Chwmni Drama Llanberis.

EISTEDDFOD YR URDD. Llongyfarchiadau i'r plant fu'n cystadlu yn y Steddfod Sir ym Mangor ddiwedd Mawrth.

CAPEL COCH. Bu plant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Annibynwyr yng nghapel Ebeneser, Deiniolen, brynhawn Sul, Ebrill 19. Aeth timau pêl-droed a thîm pêl-rwyd i Ben-y-groes i gymryd rhan yng nghystadleuaeth chwaraeon yr Ysgolion Sul. Enillodd un o'r timau pêl-droed dan 11 oed eu pedair gêm ar y nos Fawrth a mynd drwodd i'r rownd derfynol y noson ganlynol. Colli o drwch blewyn fu hanes yr hogia yn y rownd derfynol.

Llongyfarchiadau i enethod y tîm pêl-rwyd a gafodd fedalau am ddod yn ail yn y gystadleuaeth dan 11 oed ar y nos Iau. Bu'r hogia hynaf yn cystadlu yn y gemau pêl-droed dan 14 oed ar y nos Wener.

FFAIR WANWYN. Cynhaliwyd Ffair Wanwyn yn festri Capel Coch nos Iau, Ebrill 2, a'r elw o dros £300 yn mynd at brynu offer newydd i'r festri. Diolch am bob cefnogaeth a gafwyd.

LLEISIAU LLIWEDD. Oherwydd yr eira annisgwyl a gafwyd ganol mis Ebrill bu'n rhaid gohirio'r cyngerdd a drefnwyd gan Lleisiau Lliwedd. Aildrefnwyd y cyngerdd ar gyfer nos Iau, Mai 7, yn festri Capel Coch am 7.30 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb. Bydd rhai o blant y pentref a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn cymryd rhan gyda Lleisiau Lliwedd.

DIOLCHIADAU

Dymuna Andrew a Rhiannon ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu dyweddïad.

Dymuna Anti Catherine ac Anti Delyth a Sarah ddiolch yn arw am y blodau a gawsant adeg y Pasg gan blant Ysgol Feithrin Llanberis.

BINGO. Dymuna Anne Cymberton ddiolch am y gefnogaeth i'r noson Bingo er budd Cymdeithas Clefyd y Motor Neurone. Gweler newyddion Nant Peris.

WEDI GWELLA. Mae teulu Huw Bara yn falch o'i weld wedi gwella ac wedi cael dod adref. Pob lwc, Dad. **YSGOL FEITHRIN.** Mae'n amser rhoi enwau ar gyfer yr Ysgol Feithrin erbyn y flwyddyn nesaf. Os oes gennych blentyn fydd yn dechrau yn yr Ysgol Feithrin ym mis Medi, cysylltwch â Mrs Catherine Williams, 6 'Rallt Goch' (ffôn: 871567) er mwyn rhoi'r enw iddi.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

NEWID DYDDIAD

cynhelir

CYNGERDD

LLEISIAU LLIWEDD

NOS IAU, MAI 7

am 7.30 o'r gloch

yn FESTRI CAPEL COCH

SIOE FFASIWN GWALLT A DILLAD

(Er budd Ysgol Feithrin Llanberis)
gyda CERi a MORUS
a siop ddillad PRINGLES
YNG NGWESTY DOLBADARN
NOS FERCHER, 27 MAI
am 7.30 p.m.
Tocynnau £3
Ffoniwch Anne Cumberton
(870356)

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

PLAID CYMRU. Cyfarfu Cangen Llanrug a'r Cylch yng Nghanolfan Penisarwaun nos Iau, Ebrill 16. Ers rhai blynyddoedd mae yna edrych ymlaen at noson Mrs Mary Vaughan Jones, noson sy'n siŵr o fod yn hwyliog ac addysgiadol. Yn wahanol i'r arfer eleni cawsom ein tywys o amgylch ein hardal ein hunain gan sylweddoli mor ffodus ydym o gael byw yng Ngwynedd. Roedd y sleidiau o olygfeydd cyfarwydd ac o henebion diddorol yn odidog, a mwynhawyd y sgwrs a'r lluniau gan bawb. Rhoddwyd y baned gan Mrs Megan Roberts, Gregynog.

Enillydd y raffl y noson oedd Einir Gwyn ac enillwyr y Clwb Cant am y mis oedd, 1, Jean Walsh; 2, Delyth Thomas.

Nos Iau, Mai 21, bydd y Cangen yn ymweld â Chanolfan Nant Gwrtheyrn dan arweiniad Miss Phyllis Ellis. Cysylltwch â hi (870237) neu â'r Ysgrifennydd (650200) os hoffech ddod.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Bethan Mackinnon, Plas Tirion ar lwyddo mewn arholiad theori, gradd 2, gyda rhagoriaeth dan nawdd Bwrdd Arholi yr Ysgolion Brenhinol.

EGLWYS ST. MIHANGEL. Mae'r Eglwys yn apelio eto eleni am roddion ariannol i gadw'r fynwent yn ddacl ac fe ddiolchir i bawb am eu rhoddion y llynedd. Derbynnir y rhoddion gan y trysorydd, Mrs Dilys Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug neu yr ysgrifennyddes, Mrs Andrea Roberts, Bryn Derwen, 17 Ffordd Cwstenin, Caernarfon LL55 2LF. Diolch yn fawr.

DIOLCH. Dymuna Mrs Morfina Cadwaladr a theulu'r ddiweddar Mrs Gwyneth Hughes, 7 Gwêl Fynydd, Llanrug ddiolch o galon i'w thelu, cyfeillion a chymdigion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a chwaer annwyl. Diolch yn arbennig i'r meddygon, nyrsus a staff Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Bryn Seiont yn ogystal â'r meddygol teulu a'r holl ofalwyr cartref am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch hefyd i'r Parchg Dafydd Hughes am y gwasanaeth angladdol. Diolchir hefyd am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at gronfa staff

Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont, a oedd yn £375; ac hefyd i Mr Gwyn Jones am y trefniadau trylwyr.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Alwena Williams, Cartref Melys, 1 Ffordd Glanffynnon, Llanrug ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth, ac am y rhoddion hael (£653) tuag at Feddygfa Waunfawr. Diolch arbennig i Feddygon a staff y Feddygfa am eu gofal. Diolch hefyd i'r Parchg W. R. Williams, Parchg Harri Parri a'r Parchg Dafydd Hughes am eu gwasanaeth ddydd yr angladd, ac hefyd i'r ymgymerwr, Mr M. Pritchard, Llanberis am y trefniadau trylwyr.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â'r canlynol yn eu profedigaethau:

— teulu Mrs Dora Jones, Llys Eiddon (Bryn Fedwen, Ffordd yr Orsaf gynt);
— teulu Mrs Alwena Williams, Cartref Melys, 1 Ffordd Glanffynnon;
— teulu Mrs Owen, 8A Bro Rhyddallt;

— Elen, David, Claire a Martin, Stad Nant y Glyn yn eu colled yn dilyn marwolaeth tad Elen yn Llanberis.

Bydd colled fawr i bawb yn y cartrefi hyn.

MERCHED Y WAWR. Estynnwyd croeso cynnes gan y Llywydd, Bethanne Williams, i'r ychydig aelodau a ddaeth i'r Cyfarfod Blyneddol. Anfonir y cofion gorau at Siôn Roberts, Tai Croesion, Penisarwaun gan obeithio ei fod yn cryfhau erbyn hyn.

Nos Wener, Ebrill 24ain mewn Noson Werin a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, gwobrwywyd Llyfr Lloffion Llanrug a da deall fod nifer o aelodau'r gangen yn bresennol.

Cynhelir Gŵyl Haf y Mudiad ar 27 Mehefin ym Machynlleth — bydd Dudley yno yn coginio a nifer o weithgareddau difyr eraill. Gobeithir trefnu bws o'r cylch hwn ac fe fydd manylion yn y cyfarfod nesaf. Diolchir i Beryl Thomas am ofalu am y blodau i gofio'n dyner am un a fu'n aelod ffyddlon o'r gangen hon, sef Miss Megan Humphreys.

Cadarnhawyd cofnodion blyneddol 1997 fel rhai cywir. Cytunodd Ann Ifans i fod yn Is-lywydd; Myfanwy Parry yn Is-drysorydd; Pat i gynrychioli Is-



Timau pêl-droed Capel y Rhos a fu'n cystadlu yng nghystadlaethau'r Ysgolion Sul yn ddiweddar.

bwyllgor Chwaraeon; Julie fel cynrychiolydd Is-bwyllgor Celf a Chrefft; a Phyllis Ellis ar Is-bwyllgor y Dysgwyr. Etholwyd Margaret Jones yn aelod newydd o'r pwyllgor.

Y mae angen ethol Is-ysgrifennydd eto. Cytunodd Ann Ifans a Phyllis Ellis i barhau fel gohebwyr y Wasg am flwyddyn arall. Menna Williams yw dosbarthwr 'Y Wawr'. Yr oedd pawb yn awyddus i barhau i wneud y Llyfr Lloffion gan ei fod yn gofnod diddorol o'r amrywiol weithgareddau.

Gwibdaith i Dan-y-bwlch fydd ar Mai 12fed. Bydd cyfle i fynd o amgylch y gerddi ac yna pryd o fwyd a sgwrs. Y pris yw £12.50. Bydd y bws yn cychwyn yn brydlon o Benisarwaun am 6 p.m. Croeso i'r

aelodau ddod a chyfeill gyda hwy. Enwau yn ddiymdroi, os gwelwch yn dda, i Gwenda Roberts, Lleifior, Llanrug. Ffôn (01286) 675649.

YR YSGOL GYNRADD. Croeso'n ôl i bawb ar ôl gwyliau'r Pasg.

Llongyfarchiadau i'r holl blant fu'n cystadlu mor frwdfrydig yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd. Pob lwc i'r parti dawnsio gwerin dan 12 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhwllheli ym mis Mai.

Cafodd plant y dosbarth derbyn ymweliad gan Nyrs Eluned Mason a fu'n sgwrsio gyda'r plant am sut i edrych ar ôl eu hunain. Diolch yn fawr hefyd i Mrs Llinos Parry am ddod a'i merch fach, Sarah, i'r dosbarth.

Daeth Mr Raymond Williams, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, i roi sgwrs i blant blwyddyn 5 a 6 am ddiogelwch. Mae'r ddau ddosbarth hefyd yn ymweld â Phlas Mawr a'r Castell yng Nghonwy yn ystod yr wythnos hon, fel rhan o'u thema. Cewch fwy o'r hanes yn y rhifyn nesaf.

Pob lwc i Miss Emma Parry ar ei lleoliad newydd yn Ysgol Gynradd Tregarth, fel rhan oi chynllun hyfforddi. Pob lwc hefyd i Miss Rhian Davies wrth iddi ddychwelyd i'r Coleg Technegol ar ôl treulio cyfnod yn yr ysgol.

LLONGYFARCHIADAU i Dyfed a Rhian, Tryfan, Tai Arfon ar eu dyweddian yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau hefyd i'r Seindorf am ddod yn gyntaf yng nghystadlaethau Biwmares a gynhaliwyd y Sadwrn diwethaf.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

DYLANWADAU



Eunice Owen — 3ydd o'r dde yn y rhes flaen — yn Llangrannog yn 1945.

'Dach chi wedi meddwl yn ddwys rhywdro pwy fu'r bobl a ddylanwadodd arnoch ar hyd y blynyddoedd? Dwi wedi, droeon, a'r tro cyntaf y gwnes hynny fe wnes i ryfeddu mai nid y rhai mwyaf tebygol oedd yn dod i'r cof gyntaf. Mae amgylchiadau a digwyddiadau arbennig wedi dylanwadu wrth gwrs, ond pobl wnaeth fwyaf. Pobl sy'n bwysig.

Bûm ym mynwent Nant peris yn ddiweddar yng angladd un a gafodd gryn ddylanwad arna i — Eunice Noel Owen. Eunice Moss Banc fu hi i mi erioed, neu 'chi Eunice'. Roedd hi ychydig yn hŷn na mi ond yn gymydog gweddol agos pan oeddwn yn byw yn Llainwen. Gweithio i'r Urdd yr oedd hi yn y cyfnod hwnnw, a doedd o ddim yn amser hawdd i heddychwyr fel hi a'i gŵr Bob (Bob Owen Star). Blynyddoedd y rhyfel oedd hi, a'r blynyddoedd diwedd y rhyfel, ac roedd Llanber yn llawn o filwyr yn ymarfer ac yn cael eu hyfforddi a gweithiai nifer fawr o'r bobl leol yn y ddwy ffatri a agorwyd yn y pentref i gynhyrchu rhannau i awyrennau.

Gwraid dawel oedd Eunice, di-lol a di-ffŷs, ond ar hyd y blynyddoedd cefais hi'n gyfail doeth a chall ac yn rhywun a oedd bob amser yn dweud rhywbeth a oedd yn werth ei ddweud. Nid yn sych a difrifol bob amser, cofiwch, oherwydd pe byddai felly ni fyddem wedi

mynd ati i'r Aelwyd lom, di-addurn, lychlyd honno. Gofal, cyfrifoldeb, nosweithiau o ddiffyg cwsig gâi hi mae'n siŵr wrth drefnu'r gwahanol weithgareddau ond lot o sbort a gaem ni.

Rwy'n edmygydd mawr o blant, pobl ifanc, hyfforddwyr a rhieni'r oes hon. Maent yn rhoi cymaint o'u hamser, egni a'u harian i baratoi ar gyfer eisteddfodau a mabolgampau'r Urdd. Ellwch chi ond edmygu eu dygnwch, dyfalbarhad a'u penderfyniad; ond os nad yw 'nghof i'n chwarae triciau â mi, rhywbeth llawer mwy ffwrdd-â-hi oedd mabolgampau beth bynnag yn fy nghyfnod i. Pawb ohonom yn mynd, a thyrfa fawr ohonom yn cymryd rhan yn y neidio a'r dawnsio. Yr orymdaith cyn cychwyn oedd yn bwysig a phob Adran ync ario eu baner ei hun.

Oes yna rhywun heddiw tybed sy'n ein cofio'n mynd i'r mabolgampau yn rubanau coch a gwyrdd i gyd ac yn llawn cynnwrf wrth ddisgwyl y trêr ar stesion Llanber, a phan gyrhaeddwyd pen y daith roedd Ifor (Ifor Gas) wedi gadael ein baner ni ar y fainc yn y stesion? Ni oedd yr unig Adran di-faner yn yr orymdaith? Pa flwyddyn oedd honno tybed, phle roedd y mabolgampau? Fedra i ddim cofio, ond roedd hi jyst cyn i'r rhyfel ddechrau.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

GYMNASTEG. Llongyfarchiadau i Nicholas Elsby, 1 Glanrafon ar ennill yr ail wobwr yng nghystadleuaeth Clwb Gymnasteg Eryri yng Nghaernarfon ym mis Mawrth.

BINGO. Cynhaliwyd noson Bingo er budd Ysgol Feithrin Llanberis yng Ngwesty'r Dolbadarn, nos Wener, Ebrill 3. Enillwyr y raffl fawr: 1, Carys Hughes; 2, David; 3, Jean Owen; 4, Ceinwen; 5, Ceinwen. Enillwyr y raffl fach: 1, Mari Evans; 2, Meirwen Jones; 3, Aled Davies; 4, Robert Williams; 5, Elizabeth Griffiths. Dymuna Anne Cumberton ddiolch o galon i bawb am eu cyfraniad i'r noson arbennig o dda. Codwyd £430 tuag at Gymdeithas Clefyd y Motor Neurone. Unwaith eto diolch o galon i bawb.

SIOE. Cynhelir Sioe Ffasiwn Gwallt a Dillad er budd Ysgol Feithrin

Llanberis yng Ngwesty'r Dolbadarn am 7.30 o'r gloch, nos Fercher, Mai 27. Bydd y noson yng ngofal y cynllunwyr gwallt Ceri a Morus a siop ddillad Pringles, Llanfairpwll. Mae'r tocynnau i'w cael am £3 yr un gan Ann Cumberton (ffôn 870356). Brysiwch os am sicrhau tocyn.

DIOLCH. Dymuna Anti Catherine ac Anti Delyth a Sarah ddiolch yn arw am y blodau a gawsant adeg y Pasg gan blant Ysgol Feithrin Llanberis.

YSGOL FEITHRIN. Mae'n amser rhoi enwau ar gyfer Ysgol Feithrin Llanberis erbyn y flwyddyn nesaf. Os oes gennych blentyn fydd yn dechrau yn yr Ysgol Feithrin ym mis Medi, cysylltwch â Mrs Catherine Williams, 6 'Rallt Goch, Llanberis (ffôn: 871567) er mwyn rhoi'r enw iddi.

Diolch i Eunice am ei chwmni ar ran o'r daith ac yn enwedig yn y ystod y blynyddoedd cynnar rheiny pan mae cymeriad rhywun ifanc yn cael ei lunio a'i ffurfio.

Pwy fu'n ddylanwad arnoch chi? Dach chi'n eistedd ar stori? Cannoedd ohonoch dwi'n siŵr. Anfonwch bwt i'r Eco. Peidiwch byth a chredu nad oes gennych ddim o werth i'w gyfrannu i hanes bro. Mae pawb yn ddiddorol. Chewch chi ddim siec swmpus ond pwy a wŷr efallai mae eich stori chi egyr ddrysau i rhyw athro neu athrawes dda yn ysgolion y fro i waith diddorol a gwerthfawr efo'r plant a'r bobl ifanc. Mae'n rhyfeddod cymaint o ymateb sydd wedi bod dros y blynyddoedd a hynny sy'n gwneud yr Eco yn bapur bro mor

dda. Mae'n fwy na phosib fod gennych chi lawer mwy o drysorau na golygyddion yr Eco, a hwy fyddai'r cyntaf i gyfaddef hynny gan mai yno i roi'r wybodaeth ar glawr a chadw y maent hwy. Chi biau'r papur ac mae'n bosib y byddai eich cyfraniad yn sbarduno cof rhywun arall i anfon gair ac y cawn gadwyn ddiddorol o hanes cymdeithasol y fro. Does dim rhaid iddi fod yn gadwyn hen begors fel fi. Mae yna gannoedd o bobl yn dylanwadu yn ein hardal ni heddiw. Camgymeriad dybryd yw meddwl mai *ddoe* ydi hanes. *Heddiw* ydi hanes.

Mae'n wir mai cynhaeaf ddoe yw heddiw, ond mae heddiw hefyd yn hadyd yfory.

Hwyl ar y cofio.

MAIR ROBERTS (Davies gynt)



Mabolgampau'r Urdd tebyg i'r rhai a gynhaliwyd ym Mangor oddeutu dechrau'r Ail Ryfel Byd.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

AR BEN ARALL Y LEIN . . .

Wel, dyma ni'n dechrau ar dymor arall o 'sgota. Beth sydd o'n blaen yn y saith mis nesaf 'sgwn i. Os yw'r pythefnos diwethaf yma yn rhywbeth i fynd arno mae'n argoeli'n dda gan i mi glywed fod brithyll o safon da iawn wedi'u dal ar Lyn Tywod ar y Seiont gyda un 2½ bwys i Clifford Thomas o'r Felinheli. Mae'r aelodau ifanc wedi bod yn cael hwyl dda arni hefyd yng nghyffiniau Crawia a da yw gweld holl frwdfrydedd y rhai ifanc yma. Be sy'n well na gweld y plant yn 'sgota ar lannau'n hafonydd a'n llynnoedd? Ble gwell y gallant fod? Mae'n dda eu gweld yn dechrau mor ifanc ac os cânt y blas pan yn naw oed fe fyddant yn dal ati pan yn 90 oed. All neb ddweud hynny am ddiddordebau awyr-agored arall.

Ond nid yn yr awyr iach yn unig y mae magu'r diddordeb hwn. Mae'n rhaid ail-lenwi'r boccs plu a dyna waith diddorol i'w wneud yn ystod noweithiau oer y gaeaf. A thra'n ceisio dynwared y pryfetach bach yma bydd y meddwl yn crwydro'r glannau ar noson braf o haf; yr awyr yn goch drwy'r machlud; tywyllwch yn hir yn disgyn; a chymaint o sewin i'w dal yn yr awr gyntaf wedi iddi dywyllu.

Fel yna y mae hi i lawer ohonom a'r gamp fawr yw cael mwy o'n hieuencid i ymgymryd â'r grefft ac i'r perwyl hwnnw mae'n rhaid meddwl sut i fynd ati i'w denu. Meddyliwch am hyn: pe bai pob unigolyn trwy Wynedd sy'n 'sgota yn bwrw eu pleidlais ac yn dweud bod yn rhaid gwneud rhywbeth i hybu pysgota drwy'r sir ac nid fel y mae pethau ar hyn o bryd, sef yr hyn sy'n cael ei wneud gan y Clybiau ar raddfa leol, a hynny'n wirfoddol, beth am i'r Cyngor ddechrau hybu a datblygu pysgota yn union fel y gwnânt gyda pêl-droed, criced, rygbi, nofio, tenis, badminton, ac yn y blaen. Rhaid cofio hefyd fod chwaraewyr y gemau hynny yn pallu fel yr ânt yn hŷn, ond nid felly yw hi hefo pysgota — os rhywbeth cynyddu mae'r

diddordeb fel mae rhywun yn heneiddio.

Rwy'n credu fod gan glybiau 'sgota Gwynedd achos cryf i'r awdurdodau wrando a chymryd sylw. Beth am ddechrau trwy drefnu arddangosfa i ysgolion cynradd y sir fel y bo'r plant yn ymwyd o'r bywyd sydd yn ddibynnol ar ein dyfroedd.

Ychydig wythnosau'n ôl aeth dau ohonom i gyfarfod a drefnwyd gan Cyngor Chwaraeon Cymru a oedd am egluro'r newidiadau yn y grantiau a weithredir ganddynt ac o'r holl glybiau a oedd yn bresennol fel pêl-droed, ac ati, nid oedd yna 'run cynrychiolydd yno i siarad dros y grefft o 'sgota. Yr unig raid oedd yno ar ein rhan oedd swyddogion Cyngor Gwynedd. Oedd, roedd y Cyngor Cefn Gwlad yno ac hefyd Antur Meirion-Dwyfor. Ble mae'r diddordeb tybed i dynnu mwy o arian grantiau i'r chwaraeon yma.

Yr hyn oedd o ddiddordeb i ni yn y cyfarfod oedd cael ar ddeall fod arian i'w gael i'r cynllun a elwir yn 'Cist Cymunedol', lle bydd arian ar gael i swyddogion fynd i'r gymuned i hybu mwy o chwaraeon. A pha chwaraeon fydd rheiny tybed? Ie, rydych chi'n iawn, pêl-droed, nofio, rygbi, a.y.y.b. Rŵan 'ta, beth am roi 'sgota a'r amgylchfyd ar y rhestr hefyd gan y byddai mwyafrif o rieni yn fwy na bodlon i'w plant fod yn chwifio'r enwair ac yn dal eu swper yn hytrach na stelcian ar gornel y strydoedd.

DRAENOG



Ddeuda i ddim pwy oedd o . . . ond ei fod o'n adeiladydd o gyffiniau Gallt y Glyn a brynodd pei o siop Penbryn a'i gosod ar sedd ei fan. Tra roedd o'n cael sgwrs flasus efo cyfaill roedd ei gi yn cael pei flasus yn y fan a'r lle! Hot dog tro nesa tybed?



Brithyll yr Enfys yn cael eu stocio ar gyfer Llyn y Dywarchen.

Rhaid dweud fod swyddogion y Cyngor Cefn Gwlad ac Antur Meirion-Dwyfor yn gefnogol i awgrymiadau'r Gymdeithas — felly dowch Cyngor Gwynedd, cewch weld pa mor lwyddiannus y gallai fod.

Mae gwaith y Ddeorfa yng Nghrawia yn llwyddiannus iawn gyda stocio Llyn Dywarchen wedi dechrau — bydd oddeutu 2,000 o frithyll yn cael eu rhoi

yno rhwng Ebrill a Medi ar y raddfa o tua 100 yr wythnos.

Mae oddeutu 20,000 o wyau eog yn awr wedi deori — mae'r gwaith o weithredu 'smolt scheme' dod â breuddwyd i realiti, ac os fydd y canlyniadau mor llwyddiannus â chynllun cyffelyb yn Iwerddon, fe fydd y gwaith wedi bod o werth amhrisiadwy.

Ysgol Feithrin Llanrug

Ydy eich plentyn chi yn 2½, neu'n hŷn, ym mis Medi 1998? A fyddai gennych ddiddordeb gyrru eich plentyn i'r Ysgol Feithrin?

Mae Ysgol Feithrin Llanrug yn cynnig sesiynau prynhawn, rhwng 1.05 a 3.05 o'r gloch, mewn awyrgylch ddiogel a chyfeillgar, o dan arweiniad profiadol. Cost pob sesiwn yw £1.60.

Os oes diddordeb gennych, dyma'r amser i gofrestru enw a manylion eich plentyn er mwyn sicrhau lle ar gyfer y flwyddyn 1998-99.

Er bod yr Ysgol Feithrin yn Llanrug mae croeso cynnes hefyd i blant o bentrefi cyfagos megis Cwm-y-glo, Brynrefail a Phenisarwaun, o gofio bod sawl Ysgol Feithrin wedi gorfod cau y llynedd oherwydd cynllun y talebau meithrin.

Am fwy o wybodaeth neu fanylion, cysylltwg â Julie (01286) 674416 neu Siân (01286) 872001.

Cofiwch hefyd am y 'Cylch Ti

a Fi'. Sesiwn chwarae i blant a rhieni. Bob prynhawn Llun yn Neuadd Ysgol Gynradd Llanrug o 1.20 p.m. tan 2.40 p.m. Ar gyfer plant o 9 mis oed hyd at oedran ysgol. Cost: 75c.'

Cafwyd noson lwyddiannus iawn nos Wener, Mawrth 13eg yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon yng nghwmni'r Moniars. Gobeithir trefnu mwy o nosweithiau tebyg er mwyn codi arian yn y dyfodol agos. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

MAE

SHARON VAUGHAN WILLIAMS
B.A. (Anrh.) Dip Perf

YN CYMRUD DISGYBLION
AM WERSI PIANO, CANU
A THEORI.

Cysylltwch â hi yn
YNYS IAGO, PENTIR
Ffôn: (01248) 353746

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574


PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Ymweliad Nia Griffiths â'r India



Nia o flaen y Taj Mahal.

Ar y trydydd o Ebrill 1998 cychwynnais ar daith i'r India — gwlad Gandhi, y Taj Mahal a'r Delhi-belly!

Ar ôl hedfan am 14 awr cyrhaeddais Delhi y brifddinas ag iddi bum miliwn o bobl yn byw ynddi ac a ystyrir yn un o ddinasoedd butraf y byd. Mae Delhi wedi'i rhannu'n ddwy ran — yr hen ddinas sy'n llawn bazaars a phobol leol, a'r Delhi newydd a adeiladwyd gan y Prydeinwyr (y British Raj) ddechrau'r ganrif hon.


Yn yr hen ddinas gellir cerdded o amgylch y siopau diri gan chwilio am fargeinion lu yn amrywio o fodrwyau arian i ddillad lliwgar a chrefftau pren o'r duwiau Hindwaidd. Yn yr ardal hon y gwelir y 'snake charmers' (gan gynnwys cobra a python!), mwncïod yn dawnsio a'r tlodion yn begera am arian neu fwyd.

O'i chymharu mae'r Delhi newydd yn llawn o adeiladau newydd a chof-golofnau i'n hatgoffa o ddylanwad Prydeinwyr Oes Fictoria. Cafodd India ei hannibyniaeth yn 1947.

Gadewais Delhi a chychwyn am Jaipur, prifddinas Rajasthan — un o daleithiau Gogledd-orllewin India. Ar y ffordd yno arhosais yn Sariska sy'n warchodfa i anifeiliaid sy'n cynnwys mwncïod, mongoose,

antelope, llewpart a teigrod. Am 400 rupée (tua £6.50) gellir llogi jeep i fynd ar safari. Roeddwn yn lwcus dros ben i weld teigr gwyllt yno — sydd bellach ddim yn beth cyffredin iawn wedi'r holl hela sydd wedi bod dros y blynnyddoedd.

Euthum ymlaen wedyn drwy'r wlad am Jaipur gan deithio drwy bentrefi bychain a'r caeau'n llawn gwenith a ffrwythau. Yn aml gwelir y merched yn eu saris lliwgar yn gweithio gyda chryman yn unig yn y gwres llethol, ac fe'u gwelir jyn cario jygiau o ddŵr ar eu pennau o'r ffynnon yng nghanol y pentref.



Mae Jaipur yn werth ymweliad oherwydd hanes y Moghuls sydd i'w cael yno. Ymeradwyr Mwslemaidd yr India yn y 1700au oeddynt ac yn ôl y sôn gallant fod yn greulon iawn. Mae nifer o demlau ac adfeilion plasdai i'w gweld o gwmpas Jaipur sy'n hynod o ddiddorol. Yn y ddinas gwelir hen dŷ y Maharajah o Jaipur sydd bellach yn Rambaugh Palace Hotel, ers i'r llywodraeth benderfynu, yn 1971, fod yn rhaid i'r plasdai gael eu newid i westai er mwyn dod ag arian i'r wlad.

Wedi cyfnod yn Jaipur trafiaelais rhyw 150 milltir i'r dwyrain i ddinas o'r enw Agra —

lleoliad y Taj Mahal. Adeiladwyd gan yr Ymerawdwr Shah Jahar er cof am ei wraig a fu farw ar enedigaeth plentyn yn 1631. Cymerodd 22 o flynyddoedd a thua 20,000 o weithwyr i'w gwblhau. Mae'n brydferth dros ben a gellir eistedd yno am oriau yn edrych arno.

Yn anffodus rhai oedd dychwelyd i Delhi a hedfan yn ôl gartref. Mwynheais fy mhrofiad o'r India yn fawr iawn a sylweddolais pam y gelwir yr India yn is-gyfandir efo'r gwahanol ieithoedd, traddodiadau a chrefyddau sydd yno. Dim ond crafu'r wyneb wnes i.



Rhai o'r plant yn Jaipur.

DRAENOG



Do, fe gafwyd cais i wyllo a gwrando am helyntion ambell un yn Ffrainc dros y Pasg. A, do, Barbara, fe fu ond nid yw'n addas i'w gyhoeddi yma!

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant
yn rhoi gwerth
eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes

Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales)
Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern

INSURANCE
SERVICES

All our profits
support the work
of Age Concern



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynnyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



Llythyrau

Clwb Hoci yn 20 oed

Annwyl Olygydd,

Sefydlwyd Clwb Hoci Merched Caernarfon yn 1978 ac i ddathlu ein ugeinfed pen-blwydd fe hoffwn i gyn-chwaraewyr, dyfarnwyr a swyddogion ymuno â'r aelodau presennol i ddathlu ugain mlynedd o hoci yng Nghaernarfon.

Mae aduniad wedi'i drefnu ar nos Wener, 5 Mehefin, yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, ac yna gêm 'gyfeillgar' bnawn Sadwrn. Fe hoffwn i bawb sydd wedi bod yn gysylltied â'r Clwb yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf ymuno â ni ar yr achlysur arbenni rannu atogofion am y dyddiau fu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag unrhyw un o'r canlynol:

RHIAN GRAHAM (01286) 677680
SIÂN HARRIS (01248) 671430
SIÂN WELSH (01286) 881384
LYNWEN WILLIAMS
(01286) 675710

Cymru 2000

Annwyl Olygydd,

Mae Ffilmiau'r Bont wrthi ar hyn o bryd yn cynhyrchu cyfres 'Cymru 2000' am hanes Cymru yn yr ugeinfed ganrif ar gyfer S4C. Bydd y gyfres yn cael ei chyflwyno gan yr Athro Merfyn Jones ac yn archwilio pob cornel daearyddol o'r wlad. Mi fydd yn ystyried pob agwedd o fywyd yng Nghymru, o'r economi i chwaraeon, o byllau glo i dripiâu glan môr.

Rydym wrthi'n chwilio am ddeunydd archif ac yn awyddus i gael gweld unrhyw hen ffilmiau amatwr sydd â chysylltiad Cymreig. Mae'n siŵr bod yna ddeunydd hynod o ddiddorol yn llechu mewn ambell atig sy'n cofnodi achlysuron cymdeithasol, golygfeydd gwledig a threfol, neu efallai ffordd o fyw sydd nawr wedi diflannu.

Os gall rhywun helpu, gofynnir iddynt gysylltu â:

BRANWEN DAVIES
FFILMIAU'R BONT
Y GANOLFAN DELEDU
CIBYN, CAERNARFON LL55 2BD,
(01286) 677225

Cymorth i'r Gyfraith

Annwyl Olygydd,

Fel awdur y gyfrol *Termau Cyfraith / Legal Terms* (1972), ac wedi hynny *Geiriadur y Gyfraith / The Legal Dictionary* (Saesneg-Cymraeg) (1992), ac yna *Atodlyfr* (1996) i hwnnw, y mae'n dda medru dweud bod *Geiriadur* 1992 bellach allan o brint.

Gan hynny gofynnwyd i mi gan y Cyhoeddwyd (Gwasg Gomer) a fyddai modd i mi gychwyn ar y gwaith o baratoi Ailargraffiad newydd sbon danlli o'r *Geiriadur*, gan ymgorffori yr hyn a fu yn yr Atodiad, ynghyd â deunydd newydd a chyfoes. Y tro o'r blaen sgrifennaiis lythyr i'r wasg gyhoeddus (gyfreithiol a lleys) i sôn am fy mwriad, gan ofyn i'r darllenwyr anfon ataf unrhyw ddefnydd a fyddai, yn eu barn hw, o fudd mewn cyfrol o'r fath. Siomwyd fi o'r ochr orau gan yr ymateb ffafriol.

Dyma fi'n awr yn manteisio ar eich colofn lythyrau unwaith yn rhagor i ofyn i unrhyw un neu unrhyw rai o blith eich darllenwyr sy'n teimlo y

medr gyflenwi gwybodaeth yn y mater hwn i ohebu â mi.

Diolch yn fawr i bawb sy'n ymddiddori yn hyn o beth ac mewn pwnc mor esoterig â'r gyfraith a'r Gymraeg.

ROBYN LÉWIS

'Dwryd'

Rhodfa'r Môr

NEFYN, ger Pwllheli

Gwynedd LL 53 6EB

Côr Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999

Annwyl Ddarllenwyr,

Un o uchafbwyntiau patrwm cyngherddau yr Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn yw perfformiad gan Gôr yr Eisteddfod. Bwriad Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Môn 1999 yw parhau â'r arferiad yma ac i'r perwyl hwnnw, penderfynwyd symud ymlaen yn ddioed i ffurfio Côr yr Eisteddfod. Bydd y côr yn cymryd rhan mewn o leiaf un cyngerdd ym

Mhafiliwn yr Eisteddfod yn ystod yr wythnos rhwng Gorffennaf 31 ac Awst 7, 1999.

Apeliaf ar unrhyw un sydd â diddordeb i ddod i'r cyfarfod cyntaf a gynhelir nos Wener, 8 Mai 1998 am 7 o'r gloch yng Nghapel Moreia, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. Does dim rhaidd i bawb fod yn aelodau o gôr yn barod nac yn darllen cerddoriaeth — mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno canu mewn côr mawr gyda cherddorfa ar lwyfan cenedlaethol. Yn ogystal â chael siawns i gydganu dan arweiniad y côr feistres, Enid Griffiths, bydd manylion eraill perthnasol i'r côr yn cael eu crybwyll. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Dewi Jones, yno i roi gair o groeso.

Gobeithir gweld nifer fawr o gantorion ar draws y dalgylch a thu draw i'r bont yn dod at ei gilydd i ffurfio Côr yr Eisteddfod er mwyn sicrhau llwyddiant yn y maes hwn i Eisteddfod Genedlaethol 1999.

Yn gywir,

HYWEL WYN EDWARDS
Trefnydd

Sefydliad y Merched Llanberis



Tynnwyd y llun hwn o aelodau Sefydliad y Merched neu'r 'Women's Institute' Llanberis y tu allan i Ysgol Dolbadarn tua 1952

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION




Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CROESAIR MAI



Dyddiadur y Mis

DYDDIADUR MIS MAI 1998

1. Gwener **DEINIOLLEN:** Swper y Gymdeithas Lenyddol.
 3. Sul **RHIWLAS:** Cymanfa'r Presbyteriaid am 2 a 6 o'r gloch.
 5. Mawrth **LLANBERIS:** Y Gyfeillad yng Nghapel Jerusalem.
PENISARWAUN: Cyfarfod Blyneddol Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen am 7 yn yr Ysgol.
 7. Iau **LLANBERIS:** Cyngerdd gyda Lleisiau Lliwedd yn Festri Capel Coch am 7.30.
 9. Sadwrn **LLANBERIS:** Eisteddfod y pentref yn Festri Capel Coch am 12 a 6 o'r gloch.
 10. Sul **DEINIOLLEN:** Cyfarfod Pregethu Ebeneser am 10 a 5 o'r gloch gyda'r Parchg Iwan Llewelyn Jones.
 13. Mercher **BETHEL:** Merched y Wawr yn yr Ysgol.
 14. Iau **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau.
BETHEL: Noson Goffi yn Festri Cysegr am 7.
BRYNREFAIL: Cymdeithas y Chworiydd.
 18. Llun **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched.
DEINIOLLEN: Merched y Wawr gyda Bethan Jones-Parry.
 21. Iau **LLANRUG:** Plaid Cymru. Ymweld â Nant Gwrtheyrn.
 27. Mercher **LLANBERIS:** Noson yng Ngwesty Dolbadarn o dan nawdd yr Ysgol Feithrin.
 28. Iau **BRYNREFAIL:** Noson plygu'r Eco.

ENW

CYFEIRIAD

Fe welais 1 ar draws (2,5) y bore yma. Roedd hi'n hynod o hardd gyda'r 5 ar draws, 7 ar draws, 14 ar draws, 19 i lawr, 33 i lawr, 31 ar draws a 3 i lawr i'w gweld yn glir.

AR DRAWS

9. Gwneud twll yn y wal (5)
 10. Troed y wraig o Drefor! (5)
 11. Grŵp o enethod yn canu yn yr ardd? (4)
 12. Gwresog (6)
 13. Cynnull i glywed am uffern y Sais (3)
 16. Hollt (3)
 18. Y diawl!!! (1,3,4)
 20. Adain (5)
 22. Cwrs bywyd (5)
 24. Llond basged (8)
 26. Person sy'n dod â phobl at ei gilydd, er yn edrych fel pe bai ar ei ben ei hun (4)
 29. Gwr caeth yn bwyta eog (5)
 30. Y dyn bach sy'n cuddio yn Eco'r Wyddfa (3)
 34. Diogelu drws (4)
 35. Heb wiriondeb (2-3)
 36. Brasder caled anifail a ddefnyddir i goginio (5)
 37. Mae AUDI yn sicr o dorri i lawr (4)
 38. Datgelir yr amcan yn y bennod gyntaf (3)
 39. Un sy'n diogi (7)

I LAWR

1. Mewn nifer o lefydd (3,2,4)
 2. Rhoi benthyg gan fod chwyn Ena ym mhobman (7)
 4. Symudiad yn ôl ac ymlaen (4)
 5. Yr un sy'n cysgu wrth eich ochr (7)
 6. (na, nid camgymeriad!) (4)
 7. Yr hyn a glywir gan un sy'n griddfan yn barhaus (10)
 8. Un sy'n dynwared (8)
 15. Y flwyddyn hon (5)
 17. Dosbarthiadau Guto ac Eira (10)
 21. Ci sy'n gwrthod gollwng ei afael (8)

23. Radio RFR — mae'n darlledu ar wasgar hyd lan y môr (8)
 25. Didoreth (7)
 27. Mae chwain yn rhai da! (7)
 28. Megis Enlli — un fach (6)
 32. Dyna ddyn drwg wedi meddwi (4)

ATEBION CROESAIR EBRILL

Derbyniais atebion i groesair mis Ebrill gan Mair Foulkes, Penisarwaun; E. E. Jones, Rhos-hirwaun; Ellen Pritchard Garndolbenmaen; Mary Davies, Waunfawr; Nan Owen, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; Nansi Davies, Rhuthun; Eluned Jones, Pencaenewydd; Jennie Williams, Clynnog; Megan W. Jones, Bangor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; M. P. Jones, Clynnog; Dorothy Jones, Llanrug; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Hywel Griffith, Awstralia; Rosemary Williams, Tregarth; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mable Parry, Porthmadog; Chris Roberts, Llanrug; Elwyn Evans, Llanfairpwll; Nant Roberts, Llanrug; Eirwen Roberts, Tregarth; Iorwerth a Joan Williams, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Elfed Evans, Llanllechid; Ceinwen Williams, Bethel; ac enillydd y mis, sef Mrs G. Gill, Henllys, Ffordd Deiniol, Bangor.

Doedd pob un o'r 28 ddim yn gwbl gywir, ond diolch i bob un ohonoch am eich ymateb.

Ar ôl datrus croesair mis Mai, gyrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon LL55 3HE, erbyn 18 Mai, os gwelwch yn dda.

RHODDION RHIFYN EBRILL

- £12: Mrs Annie Wilson Evans, Blaenau Ffestiniog. Mr J. Evans Hughes, Kinby Muxlowe.
 £10: Nancy Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis. Mr Meurig Owen, Lewisham. Mrs Olwen Ebbrell, Coventry, er cof am ei mham, Mrs Beti Rees Evans.
 £7: Mr P. W. Williams, Corby. Di-enw.
 £5: Mrs Bessie Williams, Bishop Auckland. Dr R. Fraser Williams, Sale. Teulu'r ddiweddar Miss Jennie May Pritchard, Plas Pengwaith, Llanberis. Geraint a Myfanwy Harper, Llandegai. Ieuan Williams, Glyn Euron, Penisarwaun. Er cof am Jean gan Rhian a Berwyn Griffiths, Llangristiolus. Gareth Oliver, Tregarth. W. A. Jones, Poole. Mrs C. Jones Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug. Hugh Bara a Doris, Llanberis. John ac Alice, Modurdy Gelert, Beddgelert. Eluned Jones, 3 Bryn Gof, Caeathro.



£3: Mr a Mrs Owen Jones, Llangefni.

£2: Miss Margaret Griffith, Caerhun, Bangor. Mrs Mair Parry, Llanllyfni. Mr Geraint Huws Roberts, Bangor. Mrs Alvona Jones, Prestatyn. Mrs Eirwen Closs Evans, Porthcawl. Mrs L. P. Lee, Morfa Bychan. Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog. Mr E. C. Rowlands, Childer Thornton. Mrs Helen Francis, Caer. Di-enw. Mr Ellis Wyn Williams, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

RHODDION RHIFYN MAI

- £12: Mrs Gwerfyl McCarthy, Childwall, Lerpwl.
 £10: Myfanwy a Geraint Harper, Llandygai. Di-enw, Bethel. Mr a Mrs R. E. Evans, Seland Newydd. Siôn Roberts a theulu Tai Croision, Penisarwaun.
 £5: Eurwyn a Pearl Williams, Parc, Betws Garmon. Mrs Jennie Roberts, Fferm Penllyn, Brynrefail.
 £4: Mrs J. Williams, Morfa Bychan.
 £3: Jeff a Liz Daniels, Stad Tŷ Hen, Waunfawr. Mrs Mair Lewis ac Eddie, 18 Rhydfadog, Deiniolen. Andrew a Rhiannon, Llanberis.
 £2: Mr Ronnie Williams, Leicester. Mrs M. E. Edwards, Stone, Staffs. Mr Alun Williams, Waunfawr. Mrs Enid Jones, Tal-y-sarn; Mrs Beryl Dawes, Plymouth. Mrs N. Williams, Llandudno.

Angen cymorth gyda'ch ffurflen treth incwm?
 Angen gwell sustem ariannol ar gyfer eich busnes?
 Angen cymorth gyda'ch chyfrifon?

Cysylltwch â

GORONWY HUGHES

Tel/Ffacs (01286) 674839

E-Bost gorhug@global.net.uk

Gweinyddiaeth Ariannol i Fusnesau Bach

CHWARAEON

Chwaraeon Ysgol Brynrefail



PÊL-FASGED

Roedd yr hogia yn llawn hyder wrth i'r bws mini newydd gyrraedd y Brifysgol, Bangor. Hon oedd y gystadleuaeth gyntaf i dîm pêl-fasged blwyddyn 8 Ysgol Brynrefail, ac nid yr olaf, gobeithio.

Chwarae brwd ac ennill yn erbyn llawer o dimau da a'r hogia eisiau cyrraedd y rownd derfynol, a dyna ddigwyddodd. Gêm gyffrous yn erbyn Ysgol Caergybi, cyn-ysgol ein hyfforddwr, Mr Holland, a'r sgôr yn agos iawn. Ond, Brynrefail gipiodd y gêm gyda sgôr derfynol o 18 i 15.

Caergybi oedd deiliaid y darian ac roeddent yn meddwl dal gafael arni, ond eleni ein dwylo ni oedd arni!

OWAIN MORRIS

RYGBI

Mae pencampwriaeth y Pum Gwlad drosodd am flwyddyn arall, ac unwaith eto siomedig oedd perfformiadau hogia'r crysau coch. Gofynnwyd yr un cwestiwn eto, 'Pam fod safon rygbi yng Nghymru gymaint salach nag yn Lloegr a Ffrainc?'

Un rheswm pendant yw'r ffaith nad yw datblygiad y gêm ymysg plant ifanc gystal yma. Er mwyn ceisio newid y sefyllfa mae Undeb Rygbi Cymru wedi penodi swyddogion datblygu yn y gogledd. Alan Thomas yw'r swyddog datblygu yng Ngwynedd, a'r llynedd, gyda chymorth aelodau Clwb Rygbi Caernarfon, bu'n cyflwyno rygbi i

Bedair blynedd wedi sefydlu timau dartiau yn Y Bedol ym Methel mae un o'r timau wedi cyrraedd yr adran gyntaf. Enillodd tim 'A' Y Bedol dlws yr ail adran wedi cystadleuaeth agos

Dwbl Top — neu'r Trebl

â thim 'B' yr Halfway, Tal-y-sarn. Dau bwynt oedd rhyngddynt a'u buddugoliaeth yn Nhal-y-sarn ddiwedd y tymor felly'n allweddol i lwyddiant Y Bedol. Enillwyd 23 allan o'r 29 gêm, a chollwyd dwy yn unig. Yr un dau dîm fu'n brwydro am y gystadleuaeth 601. Y Bedol enillodd honno hefyd. Gyda'r dwbl wedi'i gyflawni mae cyfle bellach i ennill y trebl os enillir Cwpan y Gynghrair. Chwarae'r rownd derfynol yn ystod y noson wobrwyo yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon yn ddiweddarach yn y mis.

Llongyfarchiadau felly i gapten y tîm, Trefor Foulkes. Bydd tipyn o sialens o'i flaen yn y brif adran y tymor nesaf, ond fydd hynny'n ddim o'i gymharu â chadw trefn yn y parti diwedd tymor.

Gyda llaw, tîm teuluol iawn yw hwn gan fod ynddo dad, mab a mab yng nghyfraith; dau frawd ac ambell warrior! Dyfarnwyd tlws chwaraewr y flwyddyn i Ceirion Williams a enillodd 25 o'i 28 gêm. Gobeithiwn gael llun y tîm gyda dau, os nad tri, thlws y mis nesaf.

Mae'r plant yn cael hyfforddiant yn y gwersi addysg gorfforol a hefyd mewn ymarferion awr ginio ar ddydd Mawrth. Mae carfan o bymtheg i ddeunaw yn ymarfer yn gyson ar gyfer y gemau 10-bob-ochr, a chyda mwy o brofiad mae dyfodol disglair i'r tîm.

Tlws yr Eco

Mae blwyddyn arall wedi hedfan heibio a daeth yn amser trefnu noson Tlws yr Eco. Cawsom lwyddiant ysgubol y llynedd gyda threfniadau da, cynnydd yn nifer a safon y timau, a chefnogaeth gref. Ond nid ydym am fodloni ar y llwyddiant hwnnw. Cafwyd awgrymiadau ynglŷn â'r ffordd o ddatblygu'r noson ymhellach, a'r awgrym cryfaf yw y dylid ehangu'r cyfle i'r genethod a'r bechgyn gymryd rhan. Mae rhai genethod wedi bod yn cystadlu yn y timau pêl-droed wrth gwrs. Ond y tro yma trefnir cystadleuaeth pêl-rwyd yn ogystal â'r gemau pêl-droed.

Cynhelir y noson eleni eto yn Ysgol Gynradd Llanrug, diolch i brifathro, staff a llwyodraethwyr yr Ysgol. Bydd y gemau pêl droed ar gae'r Ysgol a bydd y gemau pêl-rwyd ar ddau gwrth ar fuarth yr Ysgol. O gofio'r amrywiaeth sydd ym maint ysgolion y fro gall y timau fod yn gymysg, ond MAE'N RHAI CADW O FEWN YR OEDRAN PENODOL. Gan mai arbrawf yw'r gystadleuaeth pêl-rwyd, un gystadleuaeth fydd, a hynny i dimau dan 11 oed. Wyth bob ochr fydd y timau pêl-droed gyda dim mwy na dau/dwy eilydd (sef carfan o 10). Saith bob ochr fydd y timau pêl-rwyd gyda dim mwy na dau/dwy eilydd (carfan o 9). Codir tâl o £5 y tîm, sef 50c yr plentyn — sy'n bris rhyfeddol rad.

A'r dyddiadau pwysig? Cynhelir y ddwy gystadleuaeth **NOS WENER, MEHEFIN 12**, a'r chwarae'n dechrau am 5.30 o'r gloch. Rhaid i'r ffurflenni

cystadlu gael eu hanfon ataf **erbyn NOS WENER, MEHEFIN 5**.

Gan fod tarian newydd i'w phrynu byddwn yn falch o gael yr arian gyda'r ffurflenni, os yn bosibl. Dim ond ceisiadau ar y ffurflenni swyddogol isod gaiff eu derbyn. **Ni fyddaf yn derbyn enwau dros y ffôn, ac yn sicr ddim ar y noson.**

Eleni eto bydd Cyfeillion Ysgol Llanrug yn darparu siop ar y maes.



TLWS ECO'R WYDDFA Nos Wener, 12 Mehefin 1998 yn Ysgol Gynradd Llanrug

Y chwarae i ddechrau'n brydlon am 5.30 p.m.

TLWS YR ECO — PÊL-DROED

ENW'R TÎM

PERSON Â GOFAL

OEDRAN: Blwyddyn 3/4..... Blwyddyn 5/6.....

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES..... NAGOE.....

TLWS YR ECO — PÊL-RWYD

ENW'R TÎM

PERSON Â GOFAL

OEDRAN: Blwyddyn 3/4..... Blwyddyn 5/6.....

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: OES..... NAGOE.....

Anfoner at R. Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel — **ERBYN 5 MEHEFIN**

PÊL-DROED

Mae Ian Hughes o Lanberis, un o gynddisgyblion Brynrefail, erbyn hyn yn athro yn Ysgol Ripley, Lancaster. Ddechrau'r mis daeth â'i dîm pêl-droed dan 13 oed i herio tîm ei hen ysgol. Cafwyd gêm gystadleuol iawn. Er bod Marcus Orlik yn absennol a bod Owain Morris wedi gadael y cae gydag anaf ar ôl pum munud, brwydrodd y tîm cartref yn galed. Brynrefail aeth ar y blaen yn dilyn camgymeriad gan golgeidwad yr ymwelwyr. Methodd yr ymwelwyr gic o'r smotyn wedyn cyn unioni'r sgôr. Daeth sawl cyfle i'r ddau dîm wedi hynny, ond roedd un gôl gan Gethin Jones yn ddigon i selio'r fuddugoliaeth i Frynrefail. Ar ôl y gêm roedd hi fel 'yr hen foreau Sadwrn' gan fod Mrs Wakeham wedi paratoi boliad o fwyd poeth i'r ddau dîm. I orffen eu taith aeth yr ymwelwyr yn y trên i ben y Wyddfa.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy